# Llais Ogwan

*Papur Bro Dyffryn Ogwen*

**Rhifyn 500 · Mehefin 2019 · 50c**

## LLONGYFARCHIADAU I'R LLAIS AR GYRRAEDD Y 500fed RHIFYN!

**Diolch i'n holl gefnogwyr a'n darllenwyr ffyddlon dros y blynyddoedd. Ymlaen am y 500 nesaf!**

# Cynlluniau'r Dyfodol

Mae hi'n 5 mlynedd ers i'r Neuadd agor ei drysau ar ei newydd wedd ac yn y cyfnod yna, mae'r lle wedi datblygu i fod yn ganolfan gelfyddydol o safon gan ddenu artistiaid o bob cwr o'r byd. Mae'r Neuadd hefyd yn ganolfan gynadledda, yn llwyfannu cynyrchiadau theatrig, yn rhedeg clwb drama Crawia ac yn ganolfan gymunedol i nifer o bartneriaid lleol yn cynnwys Marchnad Ogwen a mentrau cymunedol eraill.




Un datblygiad sylweddol yn y flwyddyn ddiwethaf yw pryniant tafarn a byncws y Fic. Daeth y dafarn ar y farchnad a cymerodd cwmni Tabernacl Bethesda Cyf, perchnogion y Neuadd y cyfle i gadw perchnogaeth gymunedol o'r dafarn a'r byncws trwy fenthyciad gan y WCVA. Mae'r cwmni yn awr mewn sefyllfa i ddatblygu'r adeiladau sylweddol sydd yng nghefn y dafarn a'r bwriad yw torri trwodd o Neuadd Ogwen i'r adeiladau yn y cefn er mwyn ehangu'r gofod cymunedol a chelfyddydol sydd ar gael yn Neuadd Ogwen. Bwriad y cwmni yw gwneud ceisiadau grant sylweddol i wneud y gwaith adnewyddu a gwaith i wella'r systemau insiwleiddio sain.




Trafodwyd y cynluniau hyn gyda'r gymuned mewn cyfarfod ymgynghorol arbennig yn y Neuadd ar yr 8fed o Fai a diolch i bawb fynychodd i gyfrannu syniadau. Meddai Dyfrig Jones, Cyfarwyddwr Cwmni Tabernacl Bethesda Cyf, "Mae hwn yn gyfle gwych i ni chwilio am gyllid ychwanegol i ddatblygu'r Neuadd a'r Fic tua'r dyfodol gan adeiladu ar lwyddiant y blynyddoedd diwethaf. Mae gwella'r system insiwleiddio sain yn flaenoriaeth i ni a bydd atgyweirio'r adeiladau yng nghefn y Fic yn golygu fod mwy o ofod celfyddydol ar gael i'n cymuned. Diolch i bawb am eu cefnogaeth i'r Neuadd ar hyd y blynyddoedd a thua'r dyfodol.

Llais Ogwan

## Panel Golygyddol


**Derfel Roberts**
☎ 600965
derfel.roberts@btinternet.com

**Ieuan Wyn**
☎ 600297
ieuanwyn01@gmail.com

**Lowri Roberts**
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

**Neville Hughes**
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**Dewi A Morgan**
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**Trystan Pritchard**
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

**Walter a Menai Williams**
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

**Orina Pritchard**
☎ 01248 602119
orinapritchard@gmail.com

**Rhodri Llŷr Evans**
☎ 07713 865452
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

**Owain Evans**
☎ 07588 636259
owain.evans1@gmail.com

**Carwyn Meredydd**
☎ 07867 536102
carwynian@hotmail.com


## Swyddogion


**Cadeirydd:**
Dewi A Morgan, Park Villa, Lôn Newydd Coetmor, Bethesda, Gwynedd LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**Trefnydd hysbysebion**:
Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**Ysgrifennydd**:
Gareth Llwyd, Talgarnedd, 3 Sgwâr Buddug, Bethesda LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

**Trysorydd**:
Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub, Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

**Y Llais drwy'r post**:
Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com


## Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan Orina Pritchard.

Golygydd mis Gorffennaf fydd Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda, LL57 3SG. 01248 600297.
Ebost: ieuanwyn01@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Mercher, 3 Gorffennaf** os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu **nos Iau, 18 Gorffennaf**, yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS


Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan @Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths
elgangriffiths@btinternet.com
☎ 01970 627916
Argraffwyd gan *y Lolfa*

Â chymorth yr Ffermio gan Llywodraeth Cymru — CYMRAEG



Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.


**Mae Llais Ogwan ar werth yn y siopau isod:**

**Dyffryn Ogwen**
Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Cig Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda
Siop y Post, Rachub

**Bangor**
Siop Forest
Siop Menai
Siop Ysbyty Gwynedd

**Caernarfon** Siop Richards

**Porthaethwy** Awen Menai

**Rhiwlas** Garej Beran

# Dyddiadur y Dyffryn

**Mehefin**

22 Bore Coffi Eglwys St. Cedol, Pentir. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
22 Te Mefus Eglwys St. Cross, Talybont. Ysgoldy am 3.00
29 Bore Coffi Eisteddfod D. Ogwen. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.

**Gorffennaf**

01 Merched y Wawr Tregarth. Festri Shiloh am 7.30.
02 Gig Lorkin O'Reilly ac Alun Tan Lan. Neuadd Ogwen.
03 Te Mefus, Festri Bethlehem, Talybont am 7.00
04 Sefydliad y Merched Carneddi. Gwibdaith Addysgiadol.
05 Gig Radio Rhydd, Killdren a mwy. Neuadd Ogwen.
06 Bwrlwm Haf. Cae Ysgol Dyffryn Ogwen. 2.00 – 6.00.
13 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.00.
13 Garddwest y Tair Eglwys. Ficerdy Pentir. 1.00 – 4.00yp.
13 Bore Coffi Cwmni Drama'r Llechen Las. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
18 Noson Casglu a Dosbarthu'r Llais. Cefnfaes am 6.45.
20 Ffair Haf Eglwys St. Ann a St. Mair. Neuadd Goffa Mynydd Llandygai. 11 – 2.
20 Gig Geraint Jarman a gwestai arbennig. Neuadd Ogwen.

**Archebu trwy'r post**

Gwledydd Prydain – £22
Ewrop – £30
Gweddill y Byd – £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184


**Ymgymerwr adeiladu a gwaith saer**

**Ronald Jones**

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda
☎ 01248 601052

# Allai eich teulu hawlio gofal plant am ddim?

Ers i gynllun Cynnig Gofal Plant Cymru gael ei lansio yng Ngwynedd ym mis Medi 2017, mae mwy na 1,400 o blant tair a phedair oed Gwynedd wedi elwa, gan arbed cyfanswm o £2.6 miliwn mewn costau gofal plant i rieni.

Mae'n gynllun sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, ac sy'n cael ei weinyddu'n lleol gan dîm arbenigol o staff Cyngor Gwynedd, yn helpu rhieni i wneud cais am ofal plant ac i gael hyd i ddarparwyr.

Meddai'r Cynghorydd Dilwyn Morgan, Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc Cyngor Gwynedd:

"Mae sicrhau gofal plant fforddiadwy a da yn un o'r pethau pwysicaf sy'n wynebu teuluoedd ifanc. Mae'r cynllun gofal plant yma'n golygu fod rhieni'n gwybod y gallan nhw fynd yn ôl i weithio yn dawel eu meddwl bod eu plentyn mewn dwylo da.

"Ers i'r cynllun gael ei lansio yng Ngwynedd, mae tîm arbenigol o staff y Cyngor wedi bod yn gweithio efo'r sector gofal plant i sicrhau bod teuluoedd sy'n gweithio yn manteisio i'r eithaf ar yr help sydd ar gael. Hyd yma, mae mwy na 165 o ddarparwyr gofal plant yng Ngwynedd wedi ymuno efo'r cynllun.

"Mae'r cynllun pwysig yma wedi lleihau'n sylweddol y baich ariannol y gall gofal plant ei olygu ac mae wedi galluogi llawer o rieni i ddychwelyd i weithio. Fel Cyngor, rydan ni'n annog unrhyw deuluoedd sy'n credu y gallan elwa i gysylltu efo'n tîm fel y gallan nhw eu helpu i wneud cais."

**Pwy sy'n gallu elwa ar y cynllun gofal plant?**
Mae'r cynllun sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru yn cynnig 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant.

Mae ar gael i rieni plant tair a phedair oed sy'n gweithio am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. I fod yn gymwys:

- rhaid i'ch plentyn fod yn dair neu bedair oed ac yn gallu cael at Addysg Cyfnod Sylfaen rhan-amser;
- rhaid i chi fod yn gweithio ac yn ennill yr hyn sydd gyfwerth ag o leiaf 16 awr ar gyflog byw cenedlaethol neu'r isafswm cyflog cenedlaethol; neu'n derbyn budd-daliadau gofal penodol.

Mae gwybodaeth am wneud cais am y cynnig gofal plant yng Ngwynedd ar gael ar wefan y Cyngor: www.gwynedd.llyw.cymru/30awr

Mae croeso i rieni neu ddarparwyr gofal plant yng Ngwynedd sydd angen mwy o wybodaeth gysylltu ag Uned Gofal Plant Gwynedd a Môn ar e-bost: gofalplant30awr@gwynedd.llyw.cymru neu ffonio 01248 352436.



# Clwb Ffermwyr Ifanc

Cafodd Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen diwrnod llwyddiannus arall eleni yn Rali Ffermwyr Ifanc Eryri ar fferm Tai Hirion, Ysbytu Ifan ar y 25ain o Fai. Roedd yn diwrnod prysur iawn gyda lot o gystadlu brwdfrydig a dipyn go lew o hwyl. Cafodd y clwb ambell i wobr yn cynnwys Beca yn gyntaf gyda lapio gwlan a Glesni a Megan yn cael gyntaf gyda Gem yr Oesoedd. Bydd y tair yn mynd i'r sioe fawr yn Llanelwaedd i gystadlu dros Eryri. Cafodd y Clwb 6ed eto eleni sydd yn hynod o dda am clwb ein maint ni. Gyda'r nos cafodd parti ei gynnal, a phawb yn mwynhau eu hunain yn fawr iawn yn cymdeithasu a aelodau o glybiau eraill. Roedd hi yn ddiwrnod da iawn a rydym yn edrych yn mlaen ar gyfer blwyddyn arall brysur ar ol seibiant dros yr haf, bydd y clwb yn dechrau eto yn mis Medi.

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn yn swyddfa'r deillion, Bangor 01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

**Gareth Llwyd** ☎ 601415
**Neville Hughes** ☎ 600853

## Rhoddion i'r Llais

£20 Miss J. B. Williams, Porthaethwy.

**Diolch yn fawr**

## Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

***Gwobrau Mehefin***

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (116) | Gwyn Roberts, Bethesda. |
| £20.00 | (63) | Awen Gwyn, Tregarth. |
| £10.00 | (154) | Fred Buckley, Tregarth. |
| £5.00 | (73) | Carol Jones, Rhiwlas. |

**(Os am ymuno, cysylltwch â Neville Hughes – 600853)**

Arbenigwr mewn lloriau coed caled
A.G.L.
Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853 (nev_hughes@btinternet.com)

Copa
Siop Trin Gwallt a Harddwch
Bethesda 600094
Yn arbenigo mewn trin gwallt merched, dynion a phlant.
Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio (rasal "cut throat")

# Ysgol Llanllechid

**Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd**
Llongyfarchiadau gwresog i Gwenno Beech ar ennill y wobr gyntaf am lefaru unigol yng nghystadleuaeth Blynyddoedd 3 a 4 yn yr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd; talent a hanner! Llongyfarchwn ein cor cerdd dant ar berfformio 'Un Blaned Gron' mor soniarus yn y rhagbrawf yng Nghaerdydd. Roedd ein ensemble lleisiol hefyd yn werth eu clywed wrth i Chenai Chicanza, Mari Watcyn a Mia Williams gyd-ganu 'Mil Harddach Wyt' yn hyfryd, a'u lleisiau'n asio i'r dim. Dim llwyfan y tro hwn – ond dalwich ati genod; pwy a wyr beth fyddwch yn ei wneud yn y dyfodol gyda'r doniau hyn?! Diolch i Mrs Delyth Humphreys am eich hyfforddi. Hefyd, rydym yn falch fod Adran Dyffryn Ogwen wedi dod i'r brig drwy ennill y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth partion cerdd dant dan 12 oed. Da iawn chi! Hyfryd gweld ein plantos yn cynrychioli'r ardal fel hyn. Cewch gyfle i fwynhau'r amrywiol eitemau mewn cyngerdd a gynhelir yn Ysgol Dyffryn Ogwen ar y cyd rhwng Ysgol Llanllechid a Chor Meibion y Penrhyn ar Fehefin.





**Ysgol Arweiniol Greadigol**
Diolch i Anwen Burgess am ein cynorthwyo i ddatblygu gwaith yr ysgol ymhellach fel Ysgol Arweiniol Greadigol wrth i ni baratoi i arddangos campweithiau'r disgyblion wrth fynedfa'r plant bach. Bydd y cyfanwaith yn dathlu gwaith yr ysgol ar ein themau Meddylfryd o Dwf.

**Rhieni Newydd**
Yn ôl ein harfer, croesawyd ein rhieni newydd a'u plant i'r ysgol. Cafwyd prynhawn byrlymus lle roedd y bychain wrth eu boddau yn cael cyfleoedd i chwarae gyda'r offer newydd, yn enwedig y ceginau mwd newydd – diolch i Antur Waunfawr am eu creu!

**Ela a Lili**
Anfonwn ein cofion cynhesaf at Ela a Lili sydd ar hyn o bryd yn treulio cyfnod yn yr Almaen. Rydym mewn cysylltiad parhaus gyda'r teulu bach, ac yn dymuno pob dymuniad da iddynt, ynghyd â gwellhad llwyr a buan.



**Cwricwlwm i Gymru**
Mae Ysgol Llanllechid wedi bod yn gweithio'n greadigol a byrlymus, gan ymateb i'r cwricwlwm newydd ar draws yr ysgol. Cynhelir gweithdai ymarferol o'r dosbarth Meithrin i Flwyddyn 6, sydd yn cwmpasu profiadau o ddatrys problemau drwy weithio mewn caffi; sgriptio a chreu sioeau ar gyfer Neuadd Ogwen; cyfansoddi a pherfformio; gweithio mewn syjeri'r meddyg a.y.b Mae'r disgyblion hynaf yn allweddol yn hyn o beth, wrth iddynt arwain a chynorthwyo'r disgyblion iau. Pleser yw gweld y fath gyffro a syniadau'r disgyblion yn flaenllaw yn hyn oll.

**Capel Carmel**
Diolch i ffrind arbennig Ysgol Llanllechid, sef Mrs Helen Williams, am ein croesawu i Gapel Carmel unwaith eto. Bu Mrs Williams yn dysgu disgyblion y Cyfnod Sylfaen am y capel ac yn trafod y gwahanol nodweddion e.e. set fawr, puplud a.y.b. cyn canu emynau i gyfeiliant Mrs Delyth Humphreys ar yr organ. Mae'n braf fod Capel Carmel mor agos at yr ysgol a'n bod yn gallu cerdded yno.

**Glanllyn**
Unwaith eto, cafwyd taith hwylus dan wenau'r haul a phawb yn mwynhau cymryd rhan yn yr amrywiol weithgareddau. Diolch i Mrs Bethan Jones, Ms Gwenlli Haf a Ms Gwen am eu gofal a'u cymorth yn ystod yr ymweliad.

**Gwyddonwyr o Fri**
Bu disgyblion Bl 4, 5 a 6 yn gwisgo'u cotiau gwyn ac yn ymddwyn fel gwyddonwyr wrth ymwneud ag amrediad o weithgareddau ar y themau lliwiau. Roedd hen drafod a chrafu pen!

**Yr Wyddfa**
Da iawn Billy, Ffion Jordan, Harry Jones a Mr Ady am gerdded i fyny'r Wyddfa i godi arian at achos da.

**Plannu**
Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen wedi bod yn brysur yn plannu pob math o blanhigion a byddant yn barod i'w gwerthu i chi'r rhieni a ffrindiau'r ysgol yn fuan iawn.

**Prifeirdd**
Yn nosbarth Mrs Marian Jones, ar ôl bod yn trafod barddoniaeth, a chael sgwrs am eisteddfodau, daeth dau o'r disgyblion â manylion i'r ysgol am gampau barddonol eu hen, hen deidiau! Dywedodd Carwyn fod ei hen, hen daid, John Ellis Williams wedi cipio cadair Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth ym 1916 am awdl yn dwyn y teitl 'Ystrad Fflur'. A phwy oedd yn ail yn y gystadleuaeth? Neb llai na Hedd Wyn! Yna, daeth Lili i'r dosbarth gyda manylion am ei hen, hen daid hithau! David Jones oedd ei enw, a'i wobr ef oedd coron Eisteddfod Abergwaun ym 1936 am y bryddest 'Yr Anialwch'!

**Ysgol Eco**
Fel rhan o waith yr ysgol fel Ysgol Eco, bu pob dosbarth yn ymwneud â themau oedd yn deillio o'r themau hyn. Bu rhai dosbarthiadau yn ymwneud â hyrwyddo teithiau iach; casglu sbwriel ac ailgylchu; creu modelau 3D allan o sbwriel; fforestydd trofannol; cynhesu byd-eang; gweithio mewn partneriaeth gydag Ynni Ogwen i greu tyrbin dwr; cymharu technegau ail-gylchu o gwmpas y byd a dadansoddi'r data; creu melinau gwynt, a chreu barddoniaeth ar lygredd. Bu disgyblion blwyddyn 3 yn creu sioe Swp a Sap ar gyfer plant bach y Cyfnod Sylfaen a Swp a Sap oedd enwau'r ddau ddihiryn a fu'n taflu'r sbwriel ar hyd y lle! Cyflwynwyd y cyfan i'r ysgol gyfan yn y neuadd. Bore gwerth chweil!

**Adnabod Dail a Blodau Gwyllt**
Aeth plant y Cyfnod Sylfaen am dro ar hyd Lon Bach Odro i ddysgu enwau'r blodau gwyllt a'r deiliach sy'n tyfu yno a sylwi ar ambell i fuch goch gota hefyd!

**Gerddi Newydd yr Ysgol**
Diolch yn fawr i'r rhieni a ddaeth ynghyd ar brynhawn Sul i greu'r gerddi. Diolch i Peter Jones am ei help. Diolch arbennig i Dafydd Cadwaladr am y coed, i dad Oscar, Dion Thomas am drefnu ac i Robin Williams, tad Elin a Mared Llewelyn am y pridd. Diolch hefyd i fam Catrin Sian, sef Ann Hughes Jones am yr hadau.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â Mrs Davies-Jones ar ei phrofedigaeth o golli ei thad yn ddiweddar.

# Tregarth

**Olwen Hills (Anti Olwen),**
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192
**Angharad Williams,**
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

**Eglwys Y Santes Fair**
*GWASANAETHAU.*
Mehefin 23 Cymun Bendigaid.
Mehefin 30 Dim gwasanaeth -10:30 yn St Tegai
Gorffennaf 7 Boreol Weddi
Gorffennaf 14 Cymun Bendigaid.

Bydd yr holl wasanaethau yn dechrau am 9:30 ar wahan i'r gwasanaeth ar Fehefin 30ain yn St Tegai fydd yn dechrau am 10:30.

Ar hyn o bryd mae pawb yn brysur yn paratoi ar gyfer garddwest y Tair Eglwys sydd yn cael ei chynnal yn Ficerdy Pentir ar ddydd Sadwrn , Gorffennaf 13eg am 1:00 y prynhawn.

Dewch draw i fwynhau pnawn o hwyl!

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn fel ardal gyda Emyr a Christine Morris Jones, a'r hogia Tomos a Huw, 28 Tal y Cae, a'r holl deulu yn eu profedigaeth ddiweddar. Bu farw tad Emyr, sef William Emyr Morris-Jones, 2 Allt Dewi, Ffordd Ainon, Bangor ar Fai 12 yng Nghartref Willow Hall, Caernarfon.

Bu farw Owen Richard Van Blydenstein, Bwthyn Bryn Cul, Tregarth, yn Ysbyty Gwynedd ar Fehefin 2. Cydymdeimlwn gyda'i wraig Mavis, ei blant Conrad a Sandra a gweddill ei deulu yn eu galar.

**Band Llaregub yn New Orleans**
Braf oedd dilyn y rhaglen Deledu am Band Llaregub ar daith yn New Orleans. Un aelod o'r band oedd Gwyn Owen, 9 Tal y Cae, Tregarth. Mae Gwyn yn chwarae'r cornet yn broffesiynnol ac wedi cartrefu yn Llundain. Rhaglen ddifyr dros ben.

**Capel Shiloh. Tregarth**
Gwasanaethau yn Shiloh am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol
Mehefin 16: Gwynfor Williams, Caernarfon
Mehefin 23: Trefniant Lleol
Mehefin 30: Richard Gillion
Gorffennaf 7: Gwynfor Williams, Caernarfon
Gorffennaf 14: Richard Gillion
Gorffennaf 21: Philip Barnett, Swydd Efrog
Gorffennaf 28: Trefniant Lleol

**Gwellhad buan**
Gwellhad llwyr a buan i organydd Shiloh, sef Wyn Williams, Tyddyn Dicwm , fydd yn cael llawdriniaeth ar ei glun yn ystod Mis Mehefin yn Ysbyty Gobowen.

Fel aelodau Shiloh anfonwn ein cofion am wellhad llwyr a buan i Catherine Barnett, priod ein cyn-weinidog Philip Barnett sydd mewn Ysbyty yn Leeds ar hyn o bryd yn aros am lawdriniaeth i'w chalon. Pob dymuniad da iddi.

**Cydymdeimlo**
Collodd Christine Morris- Jones ei thad yng nghyfraith, sef William Emyr Morris- Jones, yn ystod Mis Mai ac anfonwn ei cydymdeimlad gyda chi fel teulu.

**Penblwydd arbennig**
Dathlodd un o flaenoriaid Shiloh benblwydd arbennig yn ddiweddar, sef Ffion Rowlinson. Dathlodd Ffion a'r teulu mewn modd ardderchog drwy deithio i Ecwador yn Ne America. Penblwydd cofiadawy, yn sicr.

**Drws Agored**
Cofiwch droi i mewn i Shiloh ar fore Gwener am sgwrs, paned a chwmni rhwng 10 a 12 o'r gloch.

**Profedigaeth**
Anfonwn ein cydymdeimlad gyda Delyth ac Iwan Bowen Jones, Lois a Gruffudd, 30 Tal y Cae. a gweddill y teulu. Bu farw mam Delyth, sef Diana Margaret Roberts, Penrhyn, Collen Wen, Llanfairpwll yn ysbyty Stanley, Caergybi ar Fai 5. Cofion at ei phriod , Edgar Roberts, sy'n hannu o Fethesda.

**Cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau i Ela Non Ellis Jones, Llanwnda, ddaeth yn drydydd am ganu Cerdd Dant yn Eisteddfod yr Urdd, Caerdydd. Mae Ela yn ddisgybl yn Ysgol Bontnewydd ac yn wyres i Valerie Ellis Jones, Glangors, Tregarth.

**Merched y Wawr**
Dydd Sadwrn, Mehefin 1, bu aelodau o gangen Tregarth am drip i Pwllheli. Dyma amser i siopa a chael pryd o fwyd ac yna yn y bws ymlaen i Blas Glyn y Weddw, Llanbedrog a chael cyfle i weld yr arddangosra gelf, cerdded llwybrau›r plasdy a phaned cyn dychwelyd adre. Diolch o galon i'r genod fu'n trefnu'r daith ac i Derfel am ofalu cael bws ar ein cyfer. Braf oedd gweld Anwen , ein hysgrifennyddes yn ol wedi llawdriniaeth ar ei throed.

Nos Lun, Gorffennaf 1 fydd noson ola y tymor a bydd cyfle am sgwrs a chychwyn casglu sbwriel ar gyfer ymgyrch arbennig y llywydd am eleni. Dymuniad y llywydd Cenedlaethol yw fod pob aelod o Ferched y Wawr, 6000 i gyd, yn casglu sachaid o sbwriel yn eu hardal cyn Mis Medi. Felly cofiwch ddod draw ar gyfer y noson yn Festri Capel Shiloh am 7.30 o'r gloch.

Bydd y tymor newydd yn cychwyn Nos Lun, Medi 2 am 7.30. Dyma flwyddyn arbennig iawn i Gangen Tregarth gan ein bod yn dathlu 50 mlynedd y gangen ym Mis Tachwedd. Cofiwch ymuno hefo ni i ddathlu!




C.L. JONES
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu




Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst

Cefnogwch eich busnesau lleol

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes**
600853 (nev_hughes@btinternet.com)

## Ysgol Pen y Bryn



**Opera Cenedlaethol Cymru**
Ar 20fed o Fai, aeth plant dosbarth Glyder a Glyder Fach i Venue Cymru i gymryd rhan mewn gweithdy opera a drefnwyd gan Opera Cenedlaethol Cymru. Bu'r plant yn dysgu am wahanol operau a gwrando arnynt, cyn cymryd rhan eu hunain drwy ganu 'Evening Prayer' gyda nifer o ysgolion eraill o Ogledd Cymru. Roedd y plant wedi mwynhau'n ofnadwy!

**Cogurdd**
Llongyfarchiadau gwresog i Lois Ryder o flwyddyn 5 a aeth trwodd i'r Eisteddfod yng Nghaerdydd i gystadlu mewn cystadleuaeth goginio, yn erbyn 18 o blant eraill o Gymru. Coginiodd gawl llysiau a sgons caws ac afal – blasus dros ben! Rydym ni'n falch iawn ohonot, Cogydd Lois – dalier ati!!



## Carneddi

**Taid a Nain**
Llongyfarchiadau i Michael a Michelle ar ddod yn daid a nain i Ela Fflur, a anwyd i Chloe a Gwyndaf ym Mhenygroes ar 6 Mai. Roedd hi'n pwyso 8 bwys 2 owns! Mae geni Ela Fflur yn gwneud John a Pat Roberts, 16 Ffordd Pant, yn hen daid a hen nain am y tro cyntaf, a Phyllis Willians, Adwy'r Nan yn hen fodryb. Llongyfarchiadau i chithau hefyd!

# gair neu ddau

## John Pritchard

**ADENYDD COLOMEN**
Adleisio'r Salmydd a wna'r ddau Williams mae'n debyg, ac yn fy ffordd garbwl fy hunan mi fentraf wneud yr un peth. Pe cawn adenydd mi ehedwn innau, nid ymhell na thros foroedd ond dros lwybr arfaethedig ffordd osgoi'r Bontnewydd. Wrth deithio hwnt ac yma o amgylch Caernarfon mi welaf wrychoedd a choed wedi eu torri, tir wedi ei rwygo, loriau a pheiriannau trymion yn britho'r caeau, a chriwiau o bobl wrth eu gwaith. Tameidiau o'r gwaith a welaf wrth fynd heibio, darn fan hyn a darn fan draw. Ond pe meddwn adenydd mi allwn hedfan yn uchel a chael golwg ar yr holl waith sydd ar y gweill. Mor ddifyr fyddai gweld y darlun ehangach, y darlun cyflawn, wrth i'r gwaith ar y lôn newydd fynd rhagddo.

Darnau yn unig o'r stori a welwn hefyd yng nghanol ein byw a'm bod beunyddiol, a'r darnau hynny mor aml yn ymddangos mor flêr a dibwrpas. Mor anodd yw gweld pam fod rhai pethau'n digwydd a pha ddaioni a ddaw o rai sefyllfaoedd. Mor anodd yw deall bod y fath beth â darlun cyflawn a threfn a phwrpas i bopeth a brofwn. Yr un a wêl y darlun cyflawn yw'r Duw Hollalluog sy'n trefnu'r cyfan ac 'ym mhob peth yn gweithio er daioni i'r rhai sy'n ei garu' (Rhuf. 8:28). Pe meddwn adenydd! Ond er bod rhaid ar hyn o bryd fodloni ar weld rhan ohono, y mae gobaith y gwelwn rwy ddydd y darlun cyflawn. Bryd hynny 'y daw troeon yr yrfa yn felys i lanw ein bryd'.

Eisiau ffoi rhag ofn a dychryn oedd ar y Salmydd: 'O na fyddai gennyf adenydd colomen, imi gael ehedeg ymaith a gorffwyso' (Salm 55:6). Gallwn gydymdeimlo â'i ddyhead i ddianc rhag beirniadaeth a sen a gwrthwynebiad o bob math, o du cyfaill yn ogystal â gelyn. Pe meddwn adenydd!

Nid eisiau dianc rhag trafferthion bywyd oedd ar y ddau Williams ond eisiau golwg ar y bywyd sydd eto i ddod. Thomas Williams, Bethesda'r Fro a ganodd:

*Adenydd fel c'lomen pe cawn,*
*ehedwn a chrwydrwn ymhell;*
*i gopa bryn Nebo mi awn*
*i olwg ardaloedd sydd well;*
*â'm llygaid tu arall i'r dŵr,*
*mi dreuliwn fy hoedel i ben*
*mewn hiraeth am weled y Gŵr*
*fu â'i ddwylo dan hoelion ar bren.*

A chanodd William Williams, y Pêr Ganiedydd o Bantycelyn:

*Pe cawn adenydd bore wawr,*
*Ehedeg wnawn dros foroedd mawr;*
*Nes bawn yng ngolwg Seion wiw,*
*Lle mae fy Mhriod innau yn byw.*

Ie, pe meddwn adenydd! Ac eto, nid oes rhaid wrthynt â ninnau'n gwybod, trwy ffydd yng Nghrist, y deuwn ryw ddiwrnod nid yn unig i weld y Gŵr a fu farw dan hoelion ond i gael bod gyda'r Gŵr hwnnw, ein Priod ninnau, yn nefoedd Duw. Bryd hynny, mi gredaf, y gwelwn y darlun yn llawn.


BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

Neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen
**CYNGERDD ARBENNIG**
yng nghwmni Plant Ysgol Llanllechid
Côr Meibion y Penrhyn

**Nos Fercher, 26 Mehefin am 6.30yh**
Mynediad : £4 (Oedolion)
Plant: £2.(Uwchradd)
Plant Cynradd yn ddi-dâl

*Yr elw at deuluoedd disgyblion sy'n derbyn triniaethau neu yn wael!*

**CHRIS GRIFFITHS**
**Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu**



18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

**DAFYDD CADWALADR**
**Cynhyrchion Coedlannol**
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed
**01248 605207**

## Rhiwlas

**Iona Jones**, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas ☎ 01248 355336

**Ymateb am fwy o wybodaeth**
Yn ddiweddar cawsom glywed sut i ddefnyddio eirin perthi i wella'r tagu. Owen Jones o Llangefni oedd wedi ysgrifennu am hyn yn yr Herald Gymraeg. Roedd ei deulu yn gysylltiedig â Maes Meddygon a diolch i'w nai, Hefin Williams, Ffiolau'r Grug am ymateb i'r cais am fwy o wybodaeth am y teulu.

**Tenantiaid olaf Maes Meddygon**
Mae Maes Meddygon ar y llwybr cyhoeddus rhif 71 rhwng Cae Mawr, Rhiwlas a Bwlch Cae Mawr Deiniolen.

Fy hen daid a nain oedd y rhai olaf i fyw yno, sef Dafydd a Catrin Jones. Symydodd y teulu yno o Stryd Becws, Rhiwlas tua 1887. Ganwyd Dafydd Jones, fy hen daid yn 1859 yn fab i Robert ac Elisabeth Jones, Rallt, Rhiwlas. 'Roedd fy hen nain Catrin Jones hefyd yn dod o Rhiwlas yn ferch i David ac Ann Jones. 'Roedd yn uniaith Gymraeg ac yn anllythrennog.

Dim ond tri o'r chwech o'u plant a anwyd yn Maes Meddygon, ganwyd y tri hynaf yn Stryd Becws. O'r tri a anwyd yn Maes Meddygon, dim ond Morris a oroesodd ei blentyndod. Bu farw Dafydd a oedd yn dioddef o ffitiau, yn dair ar ddeg oed. Bu farw Ebenezer yn ddau ddiwrnod oed.

'Roedd fy hen daid (Dafydd Jones) yn gweithio yn chwarel y Penrhyn. Roedd yn amser helbulus a phethau yn gwaethygu (Y Streic Fawr). Felly aeth i chwilio am waith yn Chwarel Dinorwig ond 'roedd cytundeb rhwng y Penrhyn a'r Faenol yn golygu na chai waith yno.

Yn y diwedd, cafodd waith yn chwarel Dinorwig ond ar y 4 Fawrth, 1915 bu damwain ym Mhonc Twlldwndwr ac fe laddwyd Dafydd Jones.'Roedd ei fab Morris yn gweithio gydag ef ond fe'i achubwyd gan rai o'r chwarelwyr.Gadawodd fy nhaid Robert Jones (Chris) sef mab Dafydd a Catrin, ysgol Rhiwlas yn Gorffennaf 1898 yn dair ar ddeg oed a mynd i weithio i Chwarel Dinorwig. Golygai hyn gychwyn o Maes Meddygon am 5:30 y bore a cherdded y bum milltir i'r gwaith a gweithio tan 5:30 yr hwyr a cherdded adref yn cyrraedd tua saith or gloch am gyflog o bump swllt y mis!

Claddwyd Dafydd Jones yn Eglwys Pentir. Bu gorymdaith fawr o Ddeiniolen i'r angladd gyda Band Deiniolen yn arwain. Yn 1938 bu farw fy hen nain yn 79 mlwydd oed.

Ar y garreg fedd ym mynwent Pentir nodir fod Dafydd a Catrin Jones wedi eu claddu ynghyd a Ebenezer a David.

Gyda englyn a ysgrifennodd eu mab Morris D. Jones (Glan Caledffrwd)

Drwy helynt eu holl drealon – y ddau
Fu'n ddiwyd a ffyddlon
A thyner heb bryderon
Hunant hwy wedi'r hynt hwn.

**Llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau i Osian Wyn Rowlands, Bron y Waun a'i ffrind Ellis Williams, cawsant y wobr gyntaf Yn Eisteddfod yr Urdd Caerdyd a'r Fro. Y gystadleuaeth oedd llunio gwefan i flwyddyn 7,8 a 9. Thema eu gwefan hwy oedd Dyffryn Ogwen, Ein Dyffryn ni. Gellir gweld y wefan ar safle we'r Urdd. Da iawn chi.
Yn ogystal cafodd Lois, Bron y Waun lwyddiant gyda chriw dawnsio Angylion Kelly o Fethel. Dwi'n siwr i ti fwynhau y profiad o ddawnsio ar y llwyfan mawr.

**Gwobr Tir na nog**
Yn flynyddol yn Eisteddfod yr Urdd cawn wybod pwy sy'n dod i'r brig, mae dau gategori, !llyfrau i'r oedran cynradd ac i'r uwchradd. Fel y dywedodd Bethan Gwanas , "Mae Manon Steffan Ros wedi'i gwneud hi eto!" Roedd dau lyfr o'i heiddo ar y rhestr fer, Fi a Joe Allen a Llyfr Glas Nebo a Joe aeth â hi eleni. Y mae Manon wedi ennill y wobr yma sawl gwaith bellach, llongyfarchiadau i ti, rydym yn falch o dy lwyddiant.

**Plas Pentir**
Mae Cynrig Hughes wedi ymddiddori ac wedi archwilio i hynt a helynt y teulu a fu'n byw yno ers tro bellach. Yn ddiweddar cawsom ddarlith ganddo yn y Neuadd ac roedd am wrthbrofi sawl stori am yr adeilad ac am y teulu. Na, ni ddefnyddwyd ceriig y plas i adeiladu Eglwyd Sant Cedol ac ni ddihangodd y sgweiar olaf i'r America, Un hynod ddiddorol oedd y sgweiar olaf hefyd, defnyddiodd tua naw fersiwn o'i enw a phan oedd yn ymgeisio i fod yn aelod seneddol, mewn un papur Cymraeg dywedwyd nad odd yn" llawn llathen" C awsom noson hynod o ddifyr, Diolch Cynrig am rannu dy ymchwil â ni

**Clwb Rhiwen**
Aeth rhai o'r aelodau i Venue Cymru i weld y sioe gerdd "Annie" Roedd yn gynhyrchiad hynod o dda a chan fod y tywydd yn braf cawsom bicnic ar y prom, Diolch i Jean am wneud y trefniadau.

**Cartref newydd**
Pob dymuniad da i Sion Thomas, Caeau Gleision a Ffion yn eu cartref newydd yn Llanrug. Ymddangosodd y ddau ar y rhaglen deledu "Ar Werth" ac roeddent yn egluro sut i fynd ati i brynu eu cartref cyntaf.

**Merched y Wawr - Cyfarfod Mis Mai**
Cawsom noson hwyliog yng nghwmni Carol Houston o Frynrefail, roedd yn cyflwyno y gêm Boccio ini Yn fuan iawn roeddem yn mynd yn gydtadleuol, yn enwedig y tim Coch! Roedd digon o hwyl i'w gael a phawb wedi mwynhau a'r tim coch a enillodd hefyd.

**Penblwydd priodas**
Llongyfarchiadau i Gwyn ac Einir Williams, Cefn Coch ar ddathlu eu priodas ruddem yn ddiweddar. Pob dymuniad da i chi eich dau.

**Casgliad Cymorth Cristnogol**
Diolch i'r casglwyr canlynol: Gwen, Dilys, Steffan, Debbie,Alison a Nia. Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd at yr achos teilwng yma. Eleni casglwyd £358.22, sydd yn llai na llynedd.

**Dymuno'n dda**
Y mae John Huw Evans wedi cael triniaeth i'w lygaid, mae ganddo ddiddordeb mawr yn y Llais ac yn mwynhau'r croesair yn arw ac un y Faner Newydd hefyd. Anfonwn ein cofion at Tony Jones a Dafydd Whyte hefyd ac at eraill sy heb fod yn dda.

**Cydymdeimlo**
Yn dawel yng nghartref Cerrig yr Afon , yn 92 mlwydd oed bu farw Eurwen Williams, gynt o Fangor a Rhiwlas. Yn enedigol o Llanrug ac wedi priodi ag Edward Williams (Ned) un o Rhiwlas fe ymsefydlodd y ddau yn Mro Rhiwen ac yno y ganed y plant, Orina, Marlyn a Meirion. Tra yn Rhiwlas roedd yn ffyddlon yng nghapel Peniel ac yn ymwneud ag amrywiol weithgareddau yn y pentref. Roedd yn hoff o adrodd ac yn cystadlu'n rheolaidd mewn eisteddfodau lleol. Anfonwn ein cydymdeimlad at y plant a'u teuluoedd. Bu'r angladd yng nghapel Emaus a derbynwyd rhoddion er cof tuag at gartref nyrsio Cerrig yr Afon.

**Taith Gerdded Lôn Plas**
**Nos Iau, Gorffennaf 25, 2019**
**Cychwyn o Gapel Peniel am 6.30**
Yn dilyn sgwrs am Blas Pentir yn ddiweddar daeth cais am daith gerdded lawr Lôn Plas i weld olion sydd yn gysylltiedig â theulu'r plas. Bydd y daith yn mynd lawr Lôn Plas ac i sgwâr Pentir, Eglwys Sant Cedol a'r fynwent.

Bydd angen esgidiau cryfion, ac i'r rhai hynny sydd ddim am gerdded yn ôl, trefniant car i'w cludo'n ôl i Gapel Peniel.

MODURON PANDY Cyf.
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY
UNIPART CAR CARE CENTRE

# Llandygái

**Iona Wyn Jones,** Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280
**Eirlys Edwards**, Sŵn y Coed, 23 Pentref Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 351633

**Swydd**

Llongyfarchiadau calonnog i Lowri Huws, "Cil Marian" Y Bryn, ar gael swydd fel Bydwraig yn Ysbyty Gwynedd. Arferai weithio fel Bydwraig yn y John Radcliffe, Rhydychen.

**Llythyrau**

Annwyl Olygydd

Hoffwn gymryd y cyfle yma i gyflwyno fy hun fel Comisiynydd newydd y Gymraeg.

Mi ddechreuais i yn y swydd ar 1 Ebrill eleni. Fy nod i a'r tîm o swyddogion sy'n gweithio efo fi ydy cynyddu'r cyfleoedd sydd gennych chi i ddefnyddio'r Gymraeg yn eich bywyd bob dydd. Rydyn ni wedi ein lleoli mewn pedair swyddfa; yng Nghaernarfon, Caerdydd, Caerfyrddin a Rhuthun.

Er mwyn gweithio yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl ac er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cael effaith wirioneddol ar lawr gwlad, mi fyddwn yn gosod blaenoriaethau. Dyma lle rydw i angen eich help chi.

Rydw i'n dŵad yn wreiddiol o Rosllannerchrugog ger Wrecsam, ac yn dal i fyw yn y pentref gyda 'ngwraig Llinos. Mae gen i ddarlun clir o beth ydi'r cyfleoedd a'r heriau i ddefnyddio'r Gymraeg yn fy ardal i, ond rydw i angen gwybod sut mae pethau ym mhob rhan o Gymru. Oes yna ddigon o gyfleoedd i chi neu'ch plant i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol? Ydych chi'n defnyddio'r Gymraeg wrth dderbyn gwasanaethau? Pa mor hawdd neu anodd ydy defnyddio gwasanaethau Cymraeg yn eich ardal chi? Oes yna unrhyw rwystrau i ddefnyddio'r iaith? Beth ydych chi'n credu dylai Comisiynydd y Gymraeg fod yn ei wneud i wella'ch profiad chi o ddefnyddio'r Gymraeg?

Byddwn yn ddiolchgar tu hwnt os gallwch gysylltu â mi gyda'ch sylwadau. Gallwch wneud hynny drwy e-bostio post@comisiynyddygymraeg.cymru neu ysgrifennu ataf i – Comisiynydd y Gymraeg, Bloc C, Doc Fictoria, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1TH.

Yn gywir,
Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg

# Ysgol Dyffryn Ogwen


**Eisteddfod yr Urdd**

Unwaith eto eleni bu'n flwyddyn lwyddiannus iawn i nifer o ddisgyblion yr ysgol yng nghystadlaethau Gwaith Cartref yr Urdd.

Cipiodd Martha Gwilym Jones yr 2il wobr yn y gystadleuaeth Rhyddiaith Blwyddyn 8, roedd hi'n drydydd llynedd ac yn ail eleni, cyntaf y flwyddyn nesaf?! Llongyfarchion fil hefyd i Osian ac Elis o flwyddyn 8 a enillodd y wobr gyntaf am ddylunio gwefan. Dyluniodd yr hogiau wefan a oedd yn canolbwyntio ar eu hardal nhw. Yn ogystal, daeth Gwydion Rhys yn ail am gyfansoddi i flynyddoedd 10 ac 11, mae Gwydion yn llwyddiannus yn flynyddol yn y cystadlaethau cyfansoddi cerddoriaeth ac mae'n braf ei weld yn llwyddo eto eleni. Llongyfarchiadau mawr i Idris Morris ac Ithel Morris ar eu llwyddiant gyda'u gwaith celf a chrefft. Cafodd Idris ail yn y gystadleuaeth gwaith lluniadu 2D i flynyddoedd 7, 8 a 9 ADY ac ail i Ithel mewn dwy gystadleuaeth, gwaith lluniadu 2D dan 25 oed ADY a gwaith creadigol 3D dan 25 oed ADY

Bydd nifer o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu yn yr Eisteddfod eleni a gobeithiwn yn fawr y cawn gyfle i'w llongyfarch nhw yn y rhifyn nesaf.

Cystadleuaeth Cogurdd: Anest Bryn
Alaw Werin 7-9: Cian Iolen Rhys
Côr Bechgyn Blwyddyn 13 ac Iau
Côr Merched Blwyddyn 13 ac Iau
Unawd Llinynnol 10-13: Gwydion Rhys
Unawd Chwythbrennau 10-13: Beca Nia.



Idris Morris gyda'i dystysgrif am ei waith celf a chrefft



Ithel Morris

**Ysgoloriaeth**

Llongyfarchiadau i Cadi Roberts a Lois Ashton ar ennill ysgoloriaethau. Mae Cadi wedi ennill dwy ysgoloriaeth, sef Prif Ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol sydd yn £3000 ynghyd a Gwobr y Fonesig Enid Parry gan Brifysgol Bangor sydd yn £1000 . Mae Cadi yn bwriadu astudio'r Gymraeg yn y brifysgol. Mae Lois hefyd yn bwriadu astudio cwrs nyrsio ym Mhrifysgol Bangor ac mae hi wedi derbyn Ysgoloriaeth Teilyngdod gan y brifysgol sydd yn werth £2000.

**Cynllun Profi**

Llongyfarchiadau i Chloe Hill gafodd ei henwebu a derbyn tystysgrif am sbarduno ac arwain ei grŵp yn Seremoni Cynllun Profi yn ddiweddar. Roedd y bedair aelod sef Chloe, Sophia Evans, Rose Davies a Mia Richards wedi ymateb i friff gan Awyr Las a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gan weithio ar gynllun dros cyfnod o dri mis i godi ymwybyddiaeth o broblemau Iechyd Meddwl a sut y gellid eu datrys. Yn y seremoni roedd rhaid iddynt roi cyflwyniad llafar o flaen panel o feirniaid Her Profi ynghyd a chyflwyno ffilm a grëwyd ganddynt o'u syniadau. Drwy gymryd rhan yn yr her yma, mae'r disgyblion wedi cryfhau sgiliau cyflogadwyedd allweddol gyda chymorth cyflogwyr lleol. Da iawn chi.

**Cynllun Seren**

Bu dros ddwsin o ddisgyblion blwyddyn 8 ar weithgaredd i ddisgyblion Medrus a Thalentog fel rhan o Gynllun Seren yn ddiweddar. Cafodd y plant eu dewis ar sail ardderchowgrwydd eu gwaith ar draws y pynciau a chawson eu harwain drwy sawl techneg i helpu disgyblion i ddysgu swmp o wybodaeth mewn ychydig iawn o amser trwy ddefnyddio technegau fel Mapiau Meddwl.





**Rhai o ddisgyblion blwyddyn 9 yn mwynhau'r profiad yng Ngholeg Menai, Llangefni.**

Roedd yr hyn lwyddon nhw i'w ddysgu mewn 2 awr yn anhygoel. Bydd digwyddiadau tebyg i flynyddoedd eraill yn fuan.

**Codi STEM**

Aeth disgyblion blwyddyn 9 yr ysgol i Langefni i dreulio'r bore yn gweld, trafod, profi ac ennyn syniadau a diddordeb mewn diwydiannau a phrofiadau STEM (Science, Technology, Engineering and Maths).

Trefnwyd Ffair Codi STEM gan Gyrfa Cymru a Grŵp Llandrillo Menai i roi cyfle i'r disgyblion gael gweld arddangosfeydd, arbrofi, creu a datblygu gwahanol bethau o gemau cyfrifiadurol i greaduriaid y môr, prawf diagnostig ar gar i archwilio'r gofod.

Yn ystod eu hymweliad cawsant hefyd gyfle i gyfarfod llawer iawn o gyflogwyr lleol a chenedlaethol yn ogystal â modelau rôl STEM. Dyma rhai ohonynt: Orthios, Wynne Construction, Babcock, CITB, ICE (Inst. Civil. Eng), Alun Griffith Cyf, Syniadau Mawr Cymru/Big Ideas Wales, Ysgol Gwyddorau Eigion PB/School of Ocean Sciences BU, Lockheed Martin, GIG/NHS, Ymgynghoriad Gwynedd Consultancy, Ynys Ynni/Energy Island, EESW, Canolfan Technoleg Bwyd/ Food Technology Centre, STEM Gogledd, Technocamps BU, Jones Brothers Ruthin, Simian Risk.

Bu cryn gynnwrf hefyd pan wnaethant sylweddoli y gallan nhw gymryd rhan mewn gweithdai ymarferol.

Bu'r profiad yn eithriadol o fuddiol i 'r disgyblion gan iddynt hefyd gael y cyfle i drafod eu syniadau am yrfaoedd gyda Chynghorwyr Gyrfa o Gyrfa Cymru a chael agoriad llygad i'r holl amrywiaeth o brofiadau a gyrfaoedd sydd o fewn y meysydd hyn.

**Cwpan Criced**

Aeth criw o ddisgyblion blwyddyn 7 ac 8 i groesawu Cwpan Criced y Byd yn Zipworld ar ei daith o gwmpas Prydain, cawsant y fraint o gyfarfod Graeame Swann a Shane Williams, cafodd Emma Jones o flwyddyn 7 y fraint o deithio lawr y wifren gyda'r ddau.

**Tîm Pêl droed Cymru**

Teithiodd criw o Ddyffryn Ogwen draw i Wrecsam i gefnogi tîm pêl droed Cymru yn erbyn Trinidad a Tobago. Roedd pawb wedi mwynhau gweld gôl hwyr yn cipio'r fuddugoliaeth i Gymru.

**Rygbi**

Chwaraeodd tîm rygbi bechgyn dan 15 yr ysgol yn wych yng nghystadleuaeth cenedlaethol 7 bob ochr yr Urdd yng Nghaerdydd. Enillwyd 5 gêm yn erbyn rhai o ysgolion mwyaf Cymru ond yn anffodus colli yn yr 8 olaf.

**Athletau**

Bu nifer o berfformiadau disglair gan y disgyblion yn athletau Arfon. Y canlynol wedi mynd trwodd i gynrychioli ysgolion Arfon:

Aaron Carson - pwysau a disgen.
Osian Davies - naid hir.
Huw Davies - pwysau a disgen.
Jack Hipkiss Hughes - 400m.
Ela Oliver - 300m a naid hir.
Natalie Owen - pwysau a disgen.

Mae Ela Oliver a Natalie Owen yn mynd ymlaen i gynrychioli ysgolion Eryri ym mhencampwriaeth Cymru.

Mae Madeleine Sinfield 7 Glyder wedi cael llwyddiant ym Mhencampwriaeth Athletau Gogledd Cymru yn Wrecsam -
1af – Ras rhedeg 800m; 1af – Clwydi 70m
2il – Naid Uchel
Llongyfarchiadau mawr i'r holl ddisgyblion.

**Llythyrau**

Annwyl Ddarllenwyr
Cyfarfod Blynyddol Cyfeillion Geiriadur Prifysgol Cymru

Estynnir croeso cynnes i chi fynychu Cyfarfod Blynyddol Cyfeillion Geiriadur Prifysgol Cymru a gynhelir am 2 o'r gloch dydd Sadwrn, 22 Mehefin, yn y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd yn Aberystwyth. Ein siaradwyr eleni fydd Llywydd y Cyfeillion, y Prifardd Myrddin ap Dafydd, ynghyd â D. Geraint Lewis ac Ann Parry Owen.

Yn dilyn y cyfarfod bydd cyfle i ymweld â swyddfeydd y Geiriadur ac i gael 'paned o de a chyfle i gymdeithasu. Yr ydym yn gobeithio cael cwmni nifer o'n Cyfeillion, a hefyd croesawu Cyfeillion newydd – bydd modd ymuno â'r gymdeithas ar y diwrnod.

Am fwy o wybodaeth ewch i'n gwefan www.geiriadur.ac.uk, e-bostiwch cyfeillion@geiriadur.ac.uk, neu ffoniwch 01970 639094.

Yn gywir
Mary Williams
Ysgrifennydd y Cyfeillion
28 Mai 2019

## EGLWYS UNEDIG BETHESDA LLENWI'R CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned.
Bob bore **dydd Iau** rhwng **10.00** o'r gloch a hanner dydd

# Côr y Penrhyn

## gan Derfel Roberts

**Band o Norwy a'r Côr yn codi'r to yn y Gadeirlan i godi arian at Glefyd Motor Niwron a Hosbis Dewi Sant.**

Nos Sadwrn y cyntaf o Fehefin oedd hi, pan ymunodd Band Pres Stavanger o Norwy gydag aelodau Côr y Penrhyn i berfformio yn y Gadeirlan ym Mangor o flaen tyrfa enfawr a lanwai'r lle i'w ymylon. Daeth y band o Norwy ar wahoddiad y côr a dyma'r tro cyntaf iddo berfformio yng Nghymru, ond nid y tro olaf yn ôl tystiolaeth aelodau'r band ei hun.

Cafodd y gynulleidfa fawr eu diddori gan ddarnau amrywiol o weithiau newydd gan gyfansoddwyr o Norwy a chlywyd perfformiadau o'r safon uchaf gan y band cyfan a chan unigolion oedd yn rhoi gwefr i bawb a wrandawai. Mae'r band hwn wedi ennill nifer o gystadlaethau yn eu gwlad eu hunain ac wedi teithio'n helaeth i amryw o wledydd eraill. Ymhlith y caneuon a gyflwynwyd gan y côr roedd darnau fel 'Y Ddau Wladgarwr', 'Gwinllan a Roddwyd' a 'Mor Fawr Wyt Ti' a chododd y gynulleidfa ar eu traed i gymeradwyo perfformiadau'r band a'r côr.

Roedd y cyfan o elw'r noson yn mynd at ymchwil i'r clefyd ofnadwy, Motor Niwron, ac at Hosbis Dewi Sant sy'n darparu gofal lliniarol i bobl o Wynedd, Conwy a Môn sy'n dioddef o salwch terfynol. Codwyd dros £2000 i'r elusennau ar ôl talu'r holl gostau.

**I ddod**

Mae amserlen y côr yn hynod o lawn eto ym Mis Mehefin a Mis Gorffennaf.
5 Mehefin – Henllys
13 Mehefin – St. Ioan, Llandudno
15 Mehefin - Gŵyl Roc y Wifren Wib (Zip World)
30 Mehefin – Gŵyl Glastonbury gyda GBQ
17/18 Gorff. – Somerset House Llundain gyda GBQ

**Gŵyl Roc y Wifren Wib**

Mae Gŵyl Roc y Wifren Wib wrth gwrs yn ddigwyddiad o bwys yn Nyffryn Ogwen ac yn wir yng Ngogledd Cymru gyfan. Ar wahân i'r côr, yno eleni bydd perfformwyr mor amrywiol â Bryn Fôn, Elin Fflur, Maffia Mr Huws a Celt. Yn ychwanegol, bydd bandiau a phartïon canu eraill. gan gynnwys Alffa, deuawd blŵs ifanc o Lanrug sydd wedi cael miliwn o bobl yn gwrando arnynt ar Spotify. Mae hyn yn swm anhygoel i grwp sy'n canu yn y Gymraeg gan fod eu dilynwyr yn dod o wledydd fel America, Awstralia a Siapan.

**Cyngherddau GBQ**

Gŵyr pawb bellach am y cysylltiad clos sy wedi cael ei wneud rhang Côr y Penrhyn a 'The Good, The Bad and The Queen' grwp roc a arweinir gan Damon Albarn a enillodd enwogrwydd yn ye 80au a'r 90au gyda'i grŵp 'Blur'.

Ar ôl perfformio gyda'r grŵp byd enwog GBQ yn y Palladium yn Llundain mae'r côr erbyn hyn yn edrych ymlaen at berfformio gyda nhw yng Ngŵyl Fawr Glastonbury ac yna yn Somerset House. Llundain. Gobeithiwn fedru rhoi adroddiad llawn am Glastonbury yn y rhifyn nesa'.

**Colli Wil Em**

Gyda thristwch y deallodd pawb oedd yn ei adnabod bod y cymeriad hoffus ac annwyl uchod wedi'n gadael yn ddiweddar ac yntau'n 87 mlwydd oed. Er mai William Emyr Morris Jones oedd ei enw llawn, ni fyddai neb yn ei alw'n William, ac felly fel Wil Em roedd o'n cael ei adnabod gan y byd a'r betws. Doedd iechyd Wil ddim wedi bod yn dda yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf a bu raid iddo fynd i aros yng nghartref Willow Hall yng Nghaernarfon lle y cafodd ofal caredig a gofalus ac yno y bu farw'n dawel rai wythnosau'n ôl.

Ganed Wil Em yn Nhregarth, lle'r arferai ei fam gadw siop ac aeth i Ysgol Gynradd Tregarth cyn symud yn ystod yr ail ryfel byd i Ysgol Sir Bethesda, fel y gelwid hi bryd hynny. Ar ôl prentisio fel saer, symudodd i weithio yn labordai'r Brifysgol ym Mangor fel technegydd medrus a thwt. Yn wir 'taclus' a 'trwsiadus' oedd dau ansoddair y byddai pawb yn gallu eu defnyddio am Wil ac efallai bod ei gyfnod yn y fyddin wedi dylanwadu arno yn y cyfeiriad hwnnw. Roedd o bob amser wedi ei wisgo'n ddestlus a glân a chymerai ofal mawr fod pob blewyn o'i wallt yn ei le.

Mae'n siŵr mai un o brif ddiddordebau Wil dros y blynyddoedd oedd ei aelodaeth o Gôr Meibion y Penrhyn. Bu Wil yn canu gyda'r côr o dan bedwar arweinydd o leiaf a meddai ar lais bas da, ac er nad oedd ganddo'r hyder i ganu allan yn nerthol, roedd o bob amser mewn tiwn. Cefais i'r fraint o ganu yn ei ymyl pan wnes i ymuno â'r adran bas a bu Wil yn gydymaith ffyddlon a thriw i nifer ohonom pan deithiem i gyngerdd neu ar ymweliad â mannau eraill. Bu Wil gyda'r côr yn yr Almaen ar ddau achlysur a bu yn y Ffindir ac yn Hwngari. Roedd ganddo gof da am rai o'r digwyddiadau ar deithiau'r côr a châi fwynhad yn dweud hanesion am gymeriadau roedd o'n eu cofio yn ystod y pumdegau a'r chwedegau. Roedd ei gopïau o ganeuon y côr bob amser mewn ffolder trefnus a chymerai ofal arbennig o wisg y côr.

Mewn sawl ffordd gellid dweud bod Wil yn aelod delfrydol o gôr meibion - roedd o'n dysgu ei waith yn ddi-gŵyn ac yn ddi-ffwdan; roedd o'n canu mewn tiwn a doedd o byth eisiau tynnu sylw ato'i hun trwy gystadlu ag eraill am ganu'n nerthol. Roedd ganddo barch at bob arweinydd a chyfeilydd a gofalai ei fod yn brydlon i bob ymarfer a chyhoeddiad. Yma eto, efallai mai'r ddisgyblaeth honno a ddysgodd gartref neu mewn ysgol ac yn y fyddin, a roddodd iddo'r ddawn i fod yn aelod gwerthfawr o dîm.

Gedy Wil weddw, Glenys, a bu hi'n hynod o ofalus ohono gan sicrhau bod ei les bob amser yn dod yn gyntaf a gwnaeth hi'n siŵr bod Wil yn cael mynd gyda hi ar deithiau bysus ac yn cael cymysgu â phobl nes iddo fynd yn rhy fethedig. Gedy hefyd bedwar o blant, dwy ferch a dau fab, yn ogystal â wyrion a wyresau a gor-wyrion ac mae'n cydymdeimlad â hwy yn ddwfn ac yn ddiffuant. Casglwyd swm anrhydeddus o arian er cof amdano tuag at ymchwil i'r clefyd Alzheimers.



## Cymeriadau'r Côr

**CYFRES YW HON SY'N RHOI YCHYDIG O FANYLION AM AELODAU CÔR Y PENRHYN. YR AELOD Y MIS HWN YW DANIEL WILLIAMS O'R FELINHELI.**

1. **Be' ydy dy enw llawn?** Daniel Llewelyn Williams
2. **Oed?** 54
3. **Gwaith** Peiriannydd gwella prosesau
4. **Lle wyt ti'n byw?** Y Felinheli
5. **Un o lle wyt ti'n wreiddiol?** Morfa Nefyn
6. **Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau?** Cymdeithasol, cymwynasgar, hapus
7. **Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr** 3 mlynedd
8. **Pa lais wyt ti?** Bas 2
9. **Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** Pan ddaeth côr Cyntaf i'r Felin i ben roeddwn eisau parhau i ganu mewn côr. Roedd rhyw dynfa at Ddyffryn Ogwen gan fy mod wedi cael amser braf yn gweithio yn y chwarel yn y 90au ac wedyn wedi darganfod bod fy nhaid yn wreiddiol o Fethesda. Hefyd roedd yn ffordd i stopio Llion Derby rhag plygu fy nghlust pob nos Sadwrn.
10. **Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** Mae geiriau 'Bring Him Home' yn fy atgoffa nad ydy hi'n bosib rhoi popeth fasai rhywun yn ei hoffi I'w blant. Mae rhai bendithion allan o afael dyn.
11. **Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores?** Alison Krauss
12. **Beth ydy dy farn di am ganu pop?** Rhai caneuon a bandiau gwych a rhai da ni ddim yn gofio. Rhoddodd y sîn roc Gymraeg lot o bleser a hwyl i mi fel dilynwr a pherfformiwr. Mae yn g'neud 'r un peth i fy hogia.
13. **Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r côr?** Canu yn Stavanger yn Norwy a chael gweld y "Priest rock". Wedyn, ymateb y dorf yn Blackpool pan ymddangosodd y côr o'r tywyllwch – rhai ohonyn nhw erioed wedi clywed côr o'r blaen.
14. **Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?** Mae Cyngor Cymuned Y Felinheli yn mynd a fy mryd a fy amser. Dwi 'di dechrau tynnu lluniau am hwyl tra'n teithio gyda fy ngwraig, Sarah.
15. **Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** - Rhoi sioe dda yn y steddfod a chanu ym Mhen Llŷn – bro fy mebyd.

# COLLI DWY O FERCHED O'R ARDAL YN YR 2IL RHYFEL BYD

## Gan Andre Lomozik



Rwyf wedi bod yn aelod o Gymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd (Gwreiddiau Gwynedd) ers nifer fawr o flynyddoedd, ac wedi cofnodi arysgrif cerrig bedd mynwentydd eglwys Robertson, Coetmor; rhan o fynwent gyhoeddus Coetmor, (816 o feddi); a mynwent Bethlehem, Talybont. Rwyf bellach wedi dechrau cofnodi rhan arall o fynwent gyhoeddus Coetmor eleni.

Rwyf hefyd wedi bod yn ymchwilio i hanes y bechgyn a gwympodd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a enwyd ar y gofeb yn Bethesda. O bobtu i'r gofeb 1914-1918 mae cofeb i rai a laddwyd yn yr ail Rhyfel Byd, ac wrth edrych ar yr enwau ar y ddwy gofeb yma, fe sylwir bod enw dwy o ferched yn ymddangos ar un ohonynt, sef Ellen Davies, Llwyn Derw, Rachub, a Nancy Pritchard, 1 Fron Chwith, Llanllechid. Lladdwyd Mrs. Davies ar yr 24ain Fedi 1940, pan ollyngwyd nifer o fomiau ar ardal Dyffryn Ogwen. Roedd hi a'i theulu yn cysgodi yng nghornel y simnai pan syrthiodd y ffrwydrad, ac fe sugnwyd Mrs. Davies y fyny'r simnai a bu farw o'i hanafiadau. Achubwyd ei merch a'i ŵyr ynghyd á chymydog i'r teulu o'r rwbel.

Mae enw gŵr Mrs. Davies i'w weld ar gofeb 1914-18 hefyd, sef Robert Llewelyn Davies, Milwr Cyffredin 2830 1/6 Bn. Byddin Frenhinol Ffiwsilwyr Cymreig, a laddwyd ar y 26/10/1915 yn 33 mlwydd oed, yn Gallipoli, Twrci.

Wrth gofnodi cerrig bedd Mynwent Gyhoeddus Coetmor ddechrau'r gwanwyn yma dois ar draws carreg fedd teulu Nancy, y ferch arall a enwyd ar y gofeb ym Methesda. Pedair ar bymtheg oed oedd Nancy pan lladdwyd hi yn Lerpwl. Merch William Arthur a Mary Pritchard oedd Nancy. Roedd yn nyrsio mewn ysbyty yno ac wedi newid ei shifft gyda nyrs arall y noson cynt, ac ar ei ffordd adref o'r ysbyty. Tra yn disgwyl am fws syrthiodd bom gerllaw, ac fe anafwyd Nancy yn ddifrifol, a bu farw o'i anafiadau yr un diwrnod.

Dyma beth sydd wedi ei ysgrifennu ar garreg fedd y teulu: Er Serchog Gof am / Nancy (Nurse) / Annwyl ferch William a Mary Pritchard, / 1 Fron Chwith, Llanllechid / A gollodd ei bywyd trwy / ymosodiad y gelyn / Hyd. 1 1940, Yn 19 ml. oed / "Oddiwrth ei gwaith at ei gwobr" / Hefyd / Priod hoff a Thad tyner / William A. Pritchard, / A hunodd yn dawel / Ion. 15, 1955, yn 60 ml. oed / Dros enyd mae'r gwahaniad / uno gawn mewn gwell gwlad / A'i Briod, a mam annwyl . Mary Pritchard / A hunodd yn dawel / Meh. 22, 1972, yn 73 ml. oed / Hedd perffaith hedd. Yn ôl y 'Comonwealth War Graves Commision' fe anafwyd Nancy yn Argyle Street, ac fe fu farw yn y 'Birkenhead & Wirral Children's Hospital' lle roedd yn nyrsio, mae pot blodau ar y bedd gyda'r geiriau hyn arni "Staff Birkenhead Hospital".

Roedd Nancy yn fodryb i Mrs Wendy Jones, Bron Arfon, a'i brawd Mr Martin Thomas. 'Rwyf yn hynod ddiolchgar i Wendy am y wybodaeth a'r llun o Nancy.

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853 (nev_hughes@btinternet.com)

J. TEMPLE MORRIS A'I FAB
Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

# Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Ar ddiwedd f'ysgrif y mis d'wetha, addewais gynnwys llun y mis hwn o'r gofeb yn rhestru enwau'r hogia oedd yn aelodau o Gapel Bethesda ac a laddwyd yn y Rhyfel Mawr. Dyma'r llun a dynnais ohoni yn Ionawr 2017:



Teimlwn fod rhaid troi at Robin Hughes a'i Fab o Langefni unwaith eto a gofyn iddo am ei farn a'i gyngor ynghylch cyflwr truenus y gofeb. Addawodd a câi olwg arni. Yn y cyfamser, cefais arweiniad gan Bryn Hughes (Glanogwen gynt, bellach yn Rheolwr Amlosgfa ac Uwch Arolygydd a Chofrestrydd Mynwentydd Cyngor Gwynedd) i gysylltu efo Alun Wyn Jones, Cyngor Gwynedd. Cyflwynais f'achos iddo a chael ei gydsyniad i fynd ymlaen â'r gwaith ynghyd a'i addewid caredig y talai Cyngor Gwynedd hanner y gost am lanhau'r gofeb a'i gosod wrth ymyl y tair cofeb arall yn y fynwent. Gosododd un amod, sef fy mod yn gwneud cais i Gyngor Cymuned Bethesda i dalu hanner arall y gost.

**Cais i'r Cyngor Cymuned**

Cyflwynais gais i'r Cyngor, gyda'r gobaith y gallai'r aelodau ei drafod yn eu cyfarfod ar Fedi 19. Dw i'n hynod ddiolchgar iddyn nhw am ganiatáu'r cais yn syth a mentraf ddweud y bydd disgynyddion y rhai a enwir ar y gofeb, yn ogystal â thrigolion Dyffryn Ogwen yn gyffredinol, yn falch o'r parch a gaiff yr hogia unwaith eto. Diolch am aelodau ar Gyngor Cymuned Bethesda sydd mor ddyngarol ac mor ymwybodol o'r angen i gofio'n briodol unwaith eto aberth y rhai a laddwyd dros ganrif yn ôl.

**Gwaith Gwych**

Ychydig fisoedd yn òl, cefais alwad ffôn gan Robin Hughes i ddweud ei fod o a Robat, ei fab, wedi bod ym Mynwent Coetmor yn glanhau cofeb Capel Bethesda ac anfonodd ataf lun y garreg ar ei newydd wedd.




Ac nid dyna ddiwedd y stori! Bu Robin a Robat ym Mynwent Coetmor unwaith eto, y tro hwn yng nghwmni Mr Alun Wyn Jones, Cyngor Gwynedd, i drafod ym mhle'n union yr oedd y gofeb i gael ei lleoli. Cytunwyd iddi gael ei gosod o fewn adeiladwaith o friciau cochion i gydweddu â'r tair cofeb arall gerllaw; fe gofiwch i mi grybwyll y mis d'wetha mai J. Kenneth Hughes fu'n gyfrifol am osod y rheini yn eu lle.

**'Cartref' newydd Cofeb Capel Bethesda**

Heddiw, dyma'r gofeb yn ddiogel ym mricwaith glân a chelfydd Robin a Robat Hughes, i'w gweld yn glir o giât isaf y fynwent, i'r chwith o gwt y gweithwyr.



**Gwerthfawrogiad a Diolch**

Does dim amheuaeth na fydd cynaelodau Capel Bethesda, a disgynyddion yr hogiau a gollwyd yn arbennig, yn ogystal â thrigolion Dyffryn Ogwen yn gyffredinol, yn falch o weld y gofeb wedi'i symud o'i safle di-nod ac anaddas ar ochr llwybr yn y fynwent i lecyn gweladwy o goffa a pharch i'r deuddeg aelod o Gapel Bethesda a laddwyd yn y Rhyfel Mawr.

Wrth gloi'r ysgrif hon, pwysleisiaf ein gwerthfawrgiad a'n diolch i'r cyfeillion niferus a gydweithiodd mor barod ac effeithiol i droi'r syniad gwreiddiol yn weithred ymarferol: Alun Wyn Jones, ar ran Cyngor Gwynedd; Aelodau Cyngor Cymuned Bethesda; ac, wrth gwrs, Robin Hughes a'i Fab, Llangefni.

STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF
PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS
BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

Contractwyr Trydanol
Jones & Whitehead Cyf
Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

## Ysgol Tregarth

**Kerbcraft**

Cafodd disgyblion blwyddyn 1 ymweliad arbennig gan gath enwocaf Gwynedd, Carys Ofalus yn ddiweddar.

Bu Carys Ofalus, cymeriad hyrwyddo diogelwch y ffyrdd Cyngor Gwynedd, draw i'r ysgol er mwyn diolch i ddisgyblion blwyddyn 1 am eu gwaith caled yn ystod sesiynau Kerbcraft. Mae'r plant wedi cael budd sylweddol o'r cynllun wrth iddynt dderbyn hyfforddiant ymarferol yn rheolaidd ar sut i groesi'r ffordd yn ddiogel. Diolch o galon i'r staff am hyfforddi'r disgyblion dros yr wythnosau diwethaf.

**Gweithdy DNA**

Daeth pawb i'r ysgol yn gwisgo glas ar ddydd Iau, Mai 23ain i gefnogi elusen Ymchwil Cancr y Gogledd Orllewin (NWCR). Dyma elusen sy'n codi arian i gefnogi gwaith ymchwil a'r arian i gyd yn cael ei wario yng Ngwynedd a Môn. Daeth Ffion Lazec, eu trefnydd atom yng nghwmni 3 myfyriwr ymchwil o'r brifysgol sy'n gweithio ar brosiectau wedi eu hariannu yn uniongyrchol gan yr elusen. Cynhaliwyd gweithdy DNA i ddisgyblion Dosbarth Ffrydlas a llwyddwyd I adnabod DNA banana, cyn cael cyfle gwerthfawr I drafod, I holi ac I ateb cwestiynau. Braf oedd gweld gwybodaeth gadarn gan ein disgyblion ynglyn a byw yn iach a meddwl am eu hiechyd yn y dyfodol . Tybed a welsom rai o wyddonwyr y dyfodol ar waith heddiw!



**Taith Gerdded**

Ar fore Sadwrn Mai 18fed, cynhaliwyd taith gerdded i'r ddisgyblion, rhieni ac athrawon. Ymunodd nifer o deuluoedd yn y daith a cherdded bob cam o Dregarth i Borth Penrhyn. Yno, cafwyd picnic cyn dychwelyd i Dregarth. Llwyddodd amryw i gerdded bob cam yn ôl hefyd, gan gynnwys rai o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen. Da iawn bawb, a diolch o galon am eich cefnogaeth i'r ysgol.

**Trip dosbarth Ogwen i Pili Palas**

Cafodd dosbarth Ogwen y pleser o ymweld â Pili Palas fel taith addysgiadol i gyd-fynd ar thema ar gyfer y tymor olaf sef bwystfilod bach. Cawsom aelod o staff y ganolfan byd natur yn ein hebrwng o gwmpas y holl ardaloedd gwahanol. Gwelsom amryw o loÿnnod byw, adar, nadroedd a chwningod. Cafodd rhai o'r disgyblion dewr gyfle i afael mewn chwilen, malwen enfawr a madfall. Bu'r ymweliad yn un addysgiadol tu hwnt ac wedi ysgogi'r plant i fod eisiau dysgu mwy yn yr ysgol. Roedd y plant yn sicr wedi mwynhau'r profiad ac yn ffordd wych o ddysgu yn ymarferol.

# Llyfr stori a llun sy'n cyflwyno symudiadau ioga i blant

Mae Ioga yn hen ddisgyblaeth sydd â'i wreiddiau yng nghrefyddau traddodiadol India, sef Hindŵaeth, Bwdïaeth a Jainiaeth. Yn ystod y blynyddoedd diweddar mae wedi dechrau dod yn fwy poblogaidd fel ffordd o gadw'r corff yn heini a'r meddwl yn iach.

Nawr mae'r athrawes ioga, Leisa Mererid, am rannu ei gwybodaeth a'i phrofiadau am y ddisgyblaeth hynafol hon â phlant Cymru yn ei llyfr newydd ***Y Goeden Ioga***.




Mae'r gyfrol hon yn dilyn cylch bywyd hedyn wrth iddo dyfu yn egin ac wedyn yn goeden, cyn iddi golli ei dail a dechrau'r stori eto. Ond mae'r llyfr hwn yn fwy na stori ddarllen yn unig, mae'n annog plant a phob darllenwr i ddilyn y 15 symudiad ioga syml sy'n cyd-fynd â phob cam o'r stori.

Mae'r llyfr wedi'i gynllunio i oedolion allu arwain plant ifanc wrth ddysgu'r siapiau, neu i blant hŷn ddarllen a dilyn y stori eu hunain.

"Mae plant wrth eu bodddau yn dilyn taith yr hedyn bach wrth iddo dyfu yn goeden gadarn, gref," dywedodd Leisa. "Mae posib dilyn taith yr hedyn yn unigol (fel yn y llyfr), neu mewn parau - un yn hedyn ar llall yn haul a glaw. Gellir defnyddio'r dwylo i rwbio cefn yr hedyn i'w gynhesu (haul) neu bysedd yn dawnsio ar hyd y cefn (glaw). Mae'r cysylltiad corfforol yma yn help mawr i'r plant ymlacio."

Darparwyd ochr weledol y llyfr gan arlunydd newydd Cara Davies o ardal Arfon yn wreiddiol sydd bellach yn byw ym Manceinion.

**Digwyddiadau:**

Cynhelir sesiwn ioga a thynnu lluniau arbennig gan Leisa a Cara yn siop lyfrau Palas Print yng Nghaernarfon fore Sadwrn y 15fed o Fehefin i ddathlu dechrau Wythnos Siopau Llyfrau Annibynnol.

Ddiwedd yr wythnos honno bydd Leisa a Cara yn ymweld ag ysgolion yng ngogledd orllewin Cymru ar Ddiwrnod Cenedlaethol Ioga, yr 21ain o Fehefin.

Mae Leisa yn cynnal gweithdai ioga yn aml yn ardal y gogledd orllewin.

Os oes eisiau gwahodd Leisa i gynnal sesiwn ioga ar sail y llyfr, cysylltwch â Leisa neu Gomer.



**Os ydach am fwy o wybodaeth am *Y Goeden Ioga* neu i drefnu cyfweliad â Leisa neu Cara, cysylltwch â Sam Brown, Swyddog Marchnata Gomer, ar: 01267 221400 neu sam@gomer.co.uk**

# Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk
☎ 07443 047642
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ 601902

**Eglwys Glanogwen**
Gwasanaethau
Sul cyntaf o'r mis:
Cymun Bendigaid am 8yb
Pob Bore Sul:
Cymun Bendigaid Corawl am 11yb
Pob bore Mercher:
Gwasanaeth Cymun byr am 10.30yb, ac i ddilyn, paned a sgwrs hwyliog.
Croeso cynnes i bawb i'r holl wasanaethau.
Anfonwn ein cofion at bawb sydd yn wael neu yn gaeth i'w cartrefi. Cofiwch adael i'r swyddogion wybod os oes unrhyw un am gael ymweliad neu Gymun yn eu cartref.

Diolch i'r rhai sydd wedi rhoi arian tuag at gynnal y mynwentydd. Braf yw gweld tir Coetmor yn daclus unwaith eto, a diolch am haelioni Cyngor Cymuned Bethesda am eu cyfraniad hwythau

**Bore Coffi Cymorth Cristnogol**
Cafwyd bore coffi yng Nghanolfan Cefnfaes ar ddechrau wythnos Cymorth Cristnogol. Gwnaed elw o £320.00. Diolch i bawb fu'n helpu ac am y rhoddion, ac wrth gwrs, i bawb am eu cefnogaeth.

**Oedfa Cymorth Cristnogol, nos Sul, 13 Mai.**
Cynhaliwyd oedfa arbennig yng Nghapel Jerusalem ar ddechrau'r wythnos gasglu. Yn arwain y gwasanaeth 'roedd y Barchedig Nan Powell Davies gyda Mrs. Menai Williams yn cyfeilio. Cymerwyd rhan gan aelodau rhai o eglwysi'r cylch, sef Olwen Williams, Jerusalem; Joe Hughes, Carmel; Barbara Owen, Eglwys Crist Glanogwen; Jean Hughes, Neville Hughes a Barbara Jones, Bethlehem Talybont; Ffion Rowlinson, Shiloh Tregarth; Brenda Hughes, Eglwys St. Mair, Gelli.
Y Sul canlynol cynhaliwyd oedfa i gloi yr wythnos gasglu, eto yng nghapel Jerusalem, gyda'r Barchedig Anna Jane Evans yn arwain a chyfraniadau gan Olwen, Millie a Rhiannon.

**Ysbyty**
Anfonwn ein cofion at y rhai a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar gan ddymuno gwellhad buan iddynt, sef Mr. Emyr Roberts, Ffordd Ffrydlas, Mrs. Norma Griffiths, Abercaseg, Mr. Richard Williams, Maes y Garnedd, Mrs. Mrs. Mair Jones, Ffordd Bangor a Mr. Vernon Owen, Abercaseg.

**Taid a Nain**
Llongyfarchiadau i Heulwen ac Emyr Roberts, Ffordd Bangor, ar yr achlysur hapus o ddod yn nain a thaid i Tomos.

**Penblwydd Arbennig**
Penblwydd hapus i Mr. William Jones, Maes y Garnedd, a ddathlodd ei benblwydd yn 80 mlwydd oed ar 5 Mehefin.

**Cydymdeimlo**
Anfonwn ein cydymdeimlad at sawl teulu a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar:

Teulu'r diweddar Mr. Danny Davies, Carmel, Caernarfon.

Mrs. Rita Evans a'r teulu. Erw Las. Wedi colli ei nai a chefnder, sef Mr. Colin Jones, Mynydd Llandygai ar 10 Mai yn 63 mlwydd oed.

Mr. a Mrs. Brian Pritchard, Rhos y Nant a'r teulu. Collodd Orina ei mam, y ddiweddar Mrs. J. Eurwen Williams, Eithinog, Bangor ar 20 Mai. 'Roedd yn fam, mam yng nghyfraith, nain a hen nain annwyl. Cynhaliwyd ei hangladd fore Sadwrn, 25 Mai yng Nghapel Emaus Bangor a Mynwent Pentir. Dymuna'r teulu fynegi eu diolch cywiraf am bob arwydd o gydymdeimlad ar achlysur eu profedigaeth diweddar.

Mr. a Mrs. Alaw Jones, Parc Moch, a'r teulu. Bu farw Hefin, brawd Alaw, yng Nghaer ar 9 Mai. 'Roedd yn fab i'r diweddar Mr. a Mrs. Elwyn Jones, Maes Bleddyn, Rachub.
Mr. a Mrs. Karl Williams, Efa a Cai. Collodd Karl ei dad, Mr. Elfed Williams, Deiniolen, a'r plant wedi colli taid annwyl.

**Gorffwysfan**
Cynhaliodd y pwyllgor fore coffi yng Nghefnfaes ar Sadwrn, 18 Mai, ac fe wnaed elw ardderchog o £308.00. Diolch i'r aelodau a chyfeillion am yr holl roddion tuag at y bore.

Cofiwch am y wibdaith i Skipton sydd wedi ei threfnu ar gyfer dydd Mercher, 3 Gorffennaf. Cychwyn y tro hwn am 8 o'r gloch y bore ger y Gofeb, Stryd Fawr.

**Cyfeillion Ysbyty Gwynedd**
'Roedd Canolfan Cefnfaes yn llawn o bobl ar fore Sadwrn, 1af Mehefin. Yr achlysur oedd bore coffi a drefnwyd gan bwyllgor y Cyfeillion. Bore llwyddiannus iawn gydag elw gwych o £500.00. Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth i waith y Cyfeillion. Diolch am yr holl nwyddau a rhoddion a gafwyd, a diolch i Bronwen am ei help ac i John am baratoi ar ein cyfer.

Gweithgaredd nesaf y Cyfeillion fydd Te Prynhawn a Sioe Ffasiwn yn Pringle's, Llanfairpwll ar ddydd Iau, 25 Medi.

**Gair o Ddiolch**
Dymuna Eirwyn, Janet, Gethin a'r teulu ddiolch i bawb yn yr ardal am eu caredigrwydd at Tommy tra bu yn Yabyty Alder Hey.

**Sefydliad y Merched Carneddi**
Yn ein cyfarfod ar 6 Mehefin estynnwyd croeso cynnes i bawb gan ein llywydd, Nicola Hughes. Ar ôl cyflwyno ychydig o ymddiheuriadau, dymunodd wellhad

## Ffilmio ym Methesda



Dyma lun o'r cyflwynydd teledu adnabyddus, Nia Parry, gyda chriw ffilmio ym Marchnad Ogwen fore Sadwrn, 8 Mehefin. Maent yn ffilmio yma ac acw yn Nyffryn Ogwen ar gyfer cyfres o raglenni yn dwyn y teitl "Pobol y Chwarel". Bydd y chwe phennod yn ymddangos ar S4c o fis Ionawr 2020 ymlaen!

buan i Mair Jones yn dilyn llaw driniaeth yn ddiweddar. Mae Mair adref erbyn hyn ac yn cael pob gofal gan John, y gŵr.

Adroddwyd bod Alison â'i gŵr, Alwyn, wedi mwynhau y profiad o fynd i Balas Buckingham fel gwahoddedigion y frenhines i'r parti gardd. Hyn yn rhinwedd swydd Alison fel ustus heddwch.

Darllenwyd cofnodion mis Mai gan Gwyneth ac fe gyflwynwyd cynnwys y llythyr misol gan Nicola. Cafwyd trafodaeth ar rai o'r pynciau oedd yn berthnasol i Sefydliad Carneddi.

Noson wahanol gawsom heno yng ngofal un o'r aelodau, sef Ceinewn Hughes. I gychwyn, gofynnodd i'r aelodau yn eu tro, beth oedd eu swydd gyntaf ar ôl ymadael â'r ysgol, Dyma i chi doreth o wahanol swyddi yn dod i'r golwg, o nyrsio i athrawon, i weithio mewn siopau a fferyllfa, mynd i goleg au i ddysgu bod yn gogyddion, gweithio fel cogyddion mewn ysgolion – ystod eang o wahanol swydd!

Cwis gawsom wedyn, neu yn hytrach, ceisio dyfalu enwau amryw o enwogion ym myd y cyfryngau a chanu. Yr oedd Ceinwen, yn amlwg wedi bod yn brysur iawn wrth baratoi ar gyfer y noson.

Nicola ddiolchodd yn fawr iawn i Ceinwen am noson hwyliog a gwahanol. Dyma beth oedd brethyn cartref o ddifri! Diolchodd hefyd i'r merched am wneud y baned. Enillydd y raffl, rhoddedig gan Ceinwen, oedd Annwen.

**Balchder Bro Dyffryn Ogwen**

'Roedd bore Mawrth, 28 Mai, yn fwrlwm o liw ac yn ferw o brysurdeb. Y lliw, oherwydd bod llwyth lori Menter Fachwen efo 50 o fasgedi blodau wedi cyrraedd Llys Dafydd, ar y Stryd fawr ym Methesda am 11 o'r gloch. Y prysurdeb, oherwydd bod criw ohonom wrthi fel lladd nadredd yn danfon y basgedi crog fesul un a dwy i'w hongian tu allan i'r siopau hynny oedd wedi gofyn amdanynt. Diolch i bawb am eu cymorth wrth i Balchder Bro geisio harddu ychydig ar yr ardal. Gobeithio y bydd rhagor o bobl yn ymuno gyda'r cynllun yn y dyfodol! Diolch hefyd i Gyngor Cymuned Bethesda am eu rhodd ariannol sydd yn ein galluogi ni i ymgymryd a gweithgareddau fel hyn.

Gweithgaredd arall gan Balchder Bro yw casglu sbwriel o gwmpas yr ardal, ac ar fore Gwener, 7 Mehefin bu griw bach ohonom yn tacluso'r caeau gyferbyn a Maes Coetmor a'r ffordd tuag at y mynwentydd. Mae croeso bob amser i unrhyw un ymuno yn ein hymgyrchoedd a'n gwaith i wella'n cymuned.

# Gwybodaeth am weithgareddau Bara Caws yn Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst a'r cylch

Yn dilyn fy ebost ddechrau mis Mai mae'n bleser gennyf ddanfon gwybodaeth/amserlen atoch parthed cynhyrchiadau Theatr Bara Caws yn yr Eisteddfod eleni (wele'r atodiad) – '**Costa Byw'** a **'Gair o Gariad'**. Bu **'Costa Byw'** gan Mari Elen Jones, Mared Llywelyn Williams a Llyr Titus (Cwmni Tebot) ar daith o amgylch y Gogledd yn unig ym mis Mawrth/Ebrill eleni a chafwyd ymateb gwych i'r ddrama. Mi gaiff drigolion y de rŵan hefyd gyfle (os byddant yn dod i'r Eisteddfod) i weld y ddrama yng Nghanolfan Gymunedol Llanrwst o Nos Lun 5ed o Awst – Nos Wener 9fed o Awst (2.00 ac 8.00 yr hwyr ar y Nos Lun ac yna bob prynhawn (dim prynhawn Iau) ac mi gaiff pawb gyfle i hefyd i fynd i weld **'Gair o Gariad'** (sioe a fu mor llwyddiannus yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd y llynedd – gyda phob tocyn wedi gwerthu allan) o Nos Fawrth 6ed hyd at Nos Wener 9fed am 8.00 yr hwyr a matini ar y prynhawn Iau. Bydd 'Gair o Gariad' hefyd yn cael ei pherfformio yng Nghanolfan Gymunedol Llanrwst.

Fel y gwelwch o'r hysbyseb mae'r tocynnau rŵan ar werth i'r ddwy sioe. Cyntaf i'r felin fydd hi! Mae tocynnau i weld 'Gair o Gariad' yn gyfyngedig – dim ond 40 sydd yn medru gweld pob perfformiad.

Mi fuaswn yn falch iawn petai modd (os yn bosib) i chi fedru rhoi sylw i'r cynhyrchiad yn rhifyn eich Papur Bro ym mis Gorffennaf.

Gyda mawr ddiolch i chi am eich cydweithrediad parod bob amser.

**Cofion Linda Brown, Bara Caws**








Ceri Morris Durrant, Rachub.
Buddugol Adran Coginio.



Siân Williams, Hen Barc. Gwobr 1af-
Adran Gwaith Llaw.



Menai Wyn Morris, Gwaen Gwiail.
Buddugol - adran blodau.



Teulu dawnus Ffarm Dinas, wedi ennill sawl gwobr rhyngddynt.

# SIOM Y SIOE

Wedi'r holl bwyllgora a pharatoi, ac edrych ymlaen at Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen oedd i'w chynnal ar ddydd Sadwrn, 8fed Mehefin, cafwyd SIOM ENFAWR. Yn dilyn y glaw di-baid a gafwyd ddydd Gwener a thrwy'r nos a bore Sadwrn bu raid ei chanslo Yr holl waith yn ofer, ac ar ben hynny y colledion ariannol y bydd raid i bwyllgor y Sioe eu hwynebu!

Na, dim ceffylau, dim defaid, dim cneifio, dim cŵn, dim byd pluog, dim hen geir a pheiriannau, dim stondinau na dim mabolgampau plant! Roedd hi'n rhy wlyb o lawer, dan draed ac uwchben! OND. ROEDD HI'N SYCH YM MHABELL YR ADRAN GARTREF, a chwarae teg i'r Adran fe benderfynwyd cynnal y cystadleuthau arferol, er mawr ryddhad i'r bobol oedd wedi body n paratoi ar gyfer cystadlu.

Diolch i'r beirniaid a'r swyddogion am eu gwaith. Diolch hefyd i Berwyn Williams ac Alwyn Lloyd Ellis am dynnu lluniau ar ddiwedd y cystadlu.



Gaynor Davies , Ffordd Ffrydlas.
Enillydd am ei gwau.



Bethan Jones, Gerlan. 1af am "Swiss Roll".



Deri Tomos, Llanllechid. Buddugol gyda mêl,
medd a gwin.



**Elan Dafydd Morris, Bronnydd, Llanllechid. 1af adran goginio.**



**Fflur Roberts, Garneddwen a'i merch Annest. Gwobrau cyntaf am goginio.**



**Siân Shepherd a'r ferch fach, Tanysgafell. 3ydd wobr adran gwaith llaw.**



**Helen Evans, Erw Las. Gwobr gyda'i thaffi triog a'i chyffug.**




**Gill Taylor Williams, Glan Ffrydlas. Llwyddiannus yn yr Adran Gwaith Llaw.**



**W. H. Williams, Llanrug. Enillydd Tarian Mabinogion am goginio.**



**David Roberts a Carwyn Jones ( gyda Gethin ar ei ysgwyddau), Gerlan. Buddugol - gwin cartra'.**



**Selwyn Owen, Bethesda. 2 gwpan Adran garddio.**

# *Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?*

## DYDDIADUR BOREAU COFFI 2019

2019

**Mehefin**
22 Cefnfaes – Eglwys St. Cedol, Pentir.
29 Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.

**Gorffennaf**
13 Cefnfaes – Cwmni Drama'r Llechen Las.

Medi
07 Cefnfaes – Cronfa Tracey Smith.
14 Cefnfaes - NSPCC
21 Cefnfaes – Eglwys Sant Tegai, Llandygai.
28 Cefnfaes – Plaid Cymru.

Hydref
05 Cefnfaes – Eglwys Crist Glanogwen.
12 Cefnfaes – Caban Gerlan.
19 Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
26 Cefnfaes – Eglwys St. Cedol, Pentir.

Tachwedd
02 Cefnfaes – Clwb Camera.
09 Festri Jerusalem – Gofal Dementia
23 Cefnfaes – Neuadd Talgai.
30 Cefnfaes – Plaid Lafur.

Pwysig
Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).


CANOLFAN CEFNFAES
**GYRFA CHWIST**
MEHEFIN 25
GORFFENNAF 9, 23 A 30
am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

CANOLFAN CEFNFAES
**BORE COFFI EGLWYS ST. CEDOL, PENTIR**
SADWRN, 22 MEHEFIN
10.00 – 12.00

CANOLFAN CEFNFAES
**BORE COFFI**
**EISTEDDFOD DYFFRYN OGWEN**
SADWRN, 29 MEHEFIN
10.00 – 12.00

CANOLFAN CEFNFAES
**BORE COFFI**
**CWMNI DRAMA'R LLECHEN LAS**
SADWRN, 13 GORFFENNAF
10.00 – 12.00

**GARDDWEST 3 EGLWYS**
**Ficerdy Pentir**
DYDD SADWRN GORFFENNAF 13 EG
1.00YP – 4.00YP.
RAFFL, CACENNAU, TOMBOLA, ANRHEGION, LLYFRAU, LLUNIAETH BBQ
**MYNEDIAD**: OEDOLION £2. PLANT 50C. DEWCH YN LLU!

Ysgoldy Maes y Groes
Talybont
**TE MEFUS**
Sadwrn, 22 Mehefin
am 3 o'r gloch.
(Elw at Eglwys St. Cross)

Festri Bethlehem
Talybont
**TE MEFUS**
Nos Fercher, 3 Gorffennaf
am 7 o'r gloch.
(Elw at y Capel)

Marchnad Ogwen
**Gorffennaf 13eg**
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm
**Awst 10fed**
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm
**Medi 14eg**
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm
Bwydydd, Crefftau, Lleol
www.marchnadogwen.co.uk
Facebook


## Calendr Llais Ogwan 2020

Lluniau ar gyfer Calendr 2020 i mewn cyn **DDIWEDD GORFFENNAF 2019**, os gwelwch yn dda, er mwyn rhoi digon o amser i gynhyrchu'r calendr. Bydd unrhyw lun o ardal Dyffryn Ogwen (gan gynnwys y Carneddau a'r Glyderau) yn cael ei ystyried.

**Lluniau mewn fformat tirlun**

*Cofiwch gynnwys eich manylion cyswllt a nodi lle y cymerwyd y llun.*
*Gallwch hefyd roi teitl i'r llun.*

Trwy ebost at: calendr2020@outlook.com

*Neu* (print neu ar ddisg)

Calendr Llais Ogwan
Swyddfa Ogwen
26 Stryd Fawr
Bethesda
LL57 3AE



**Bydd y calendr ar werth ym mis Hydref – tybed fydd eich llun chi ynddo fo?**

# Mynydd Llandygái

**Theta Owen**, Gwêl y Môr, Mynydd Llandygái ☎ 600744

**Profedigaeth**

Cydymdeimlwn â Mrs. Dina Jones a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Colin. Gŵr, tad, taid a brawd annwyl iawn. Bydd colled fawr ar ôl Colin! Rydym yn meddwl amdanoch gyda chydymdeimlad dwys.

**Gwellhad Buan**

Mae llawer yn wael yn y pentref. Anfonwn ein cofion atoch gan ddymuno adferiad buan i chi.

**Eglwys St. Ann a St. Mair**

Mehefin 16eg: 9.30 y.b. Boreol Weddi
Mehefin 23ain: 9.30 y.b. Cymun Bendigaid
Mehefin 30ain: 10.30 y.b. Gwasanaeth Cymun ar y cyd yn Eglwys Crist, Glanogwen
Gorff. 7fed: 9.30 y.b. Gwasanaeth Teuluol
Gorff. 14eg: 9.30 y.b. Cymun Bendigaid
Gorff. 21ain: 9.30 y.b. Boreol Weddi.

Estynnwn groeso cynnes i bawb ymuno a ni yn ein gwasanaethau bore Sul.
Anfonwn ein dymuniadau gorau at bawb sy'n sâl ar hyn o bryd a dymunwn wellhad buan i chwi oll.

**FFAIR HAF YR EGLWYS**
Sadwrn, 20fed Gorffennaf
11 - 2 p.m.
yn y **NEUADD GOFFA**, Mynydd Llandygai.

Bydd lluniaeth ysgafn ar gael dros yr awr ginio ynghyd ag amrywiaeth o stondinau a gemau i blant.

**Diolch**

Dymuna Elna Bullock, Arafon, ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn ddiweddar. Diolch yn fawr!

# Clwb Afancod

Mae plant clwb Afancod cyntaf Bethesda a Sgowtiaid Ifanc (Cubs) wedi bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau i wella'r amgylcheddol lleol yn y pentref dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r Afancod rhwng 6 ac 8 ½ ac wedi bod yn helpu i gadw'r pentref yn daclus gan godi sbwriel ar hyd Lôn Las Ogwen ac ym Mharc Meurig bob rhyw ddau fis. Maen nhw hefyd wedi bod yn brysur yn ymarfer eu sgiliau garddio: nhw blannodd y blodau gwanwyn hyfryd y tu allan i'r Gorffwysfa ar y Stryd Fawr, ac yn y misoedd diwethaf, maent wedi plannu amrywiaeth o lysiau a pherlysiau mewn blychau plannu a gafodd eu cyflenwi gan Partneriaeth Ogwen y tu allan i'r Llyfrgell.

Mae'r "Cubs" sydd rhwng 8 ½ a 10 ½ wedi bod yn casglu sbwriel hefyd mewn sawl lleoliad o gwmpas y pentref ac wedi mynd mor bell ag ar hyd Lôn Las Ogwen i Dregarth Dydd Gŵyl Dewi llynedd tra 'roedd y wlad dan afael rhewllyd y "Beast from the East"! Gyda deunyddiau a roddwyd yn garedig gan C L Jones, nhw hefyd adeiladodd y blwch plannu sydd wedi ei osod wrth yr arwydd "Croeso I Fethesda" ar yr A5 wrth ddod i mewn i'r pentref o gyfeiriad Bangor er mwyn rhoi croeso blodeuog i bawb. Yn fwy diweddar, maent wedi plannu perlysiau y tu allan i'r Gorffwysfa fel rhan o gynllun tyfu cymunedol Egin Ogwen ac mae'r plannu mae'r Afancod wedi ei wneud tu allan i'r Llyfrgell yn rhan o'r cynllun tyfu yma hefyd.





Ni fyddai wedi bod yn bosib gwneud yr un o'r cynlluniau yma heb gefnogaeth Partneriaeth Ogwen, haelioni busnesau lleol megis C L Jones a diolch mawr hefyd i grantiau gan y Loteri Fawr, Grŵp Cynefin a First Hydro.

Mae'r Afancod yn chwilio am aelodau newydd ar hyn o bryd neu aelodau newydd i roi ar eu rhestr aros ar gyfer y dyfodol sydd yn 5 ½ ac iau. Mae'r ddau grŵp yn awyddus iawn hefyd i groesawu gwirfoddolwyr newydd i helpu i redeg y grwpiau.

Os oes gennych unrhyw syniadau am brosiectau i ddatblygu'r gymuned y byddai'r Afancod a'r "Cubs" yn gallu bod yn rhan ohonynt, yna cysylltwch gyda nhw trwy e bost os gwelwch chi'n dda:

**Meg.1stbethesda beavers @gmail.com**

# BWRLWM HAF

Diwrnod Mawr o Hwyl i'r Ardal

**Pnawn Sadwrn, Gorffennaf 6ed, 2019**

**2pm – 6 pm**

ar gae Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda

Ar ôl diwrnod gwych y llynedd, cynhelir Bwrlwm Haf eto eleni. Bydd gwahanol rannau o Ddyffryn Ogwen yn cystadlu yn erbyn ei gilydd mewn amrywiol gystadlaethau doniol. Cystadlaethau i'r plant hefyd. Pnawn llawn sbort!

Dyma'r timau:

**OGWEN ISAF**
Capten: Paula Williams
(Paulaowen10@hotmail.co.uk)

**OGWEN UCHAF**
Capten: Donna Watts
(donna@ogwen.org)

**TREGARTH, MYNYDD LLANDYGAI A RHIWLAS**
Capten: Anwen Morgan
(anwenmorgan@hotmail.co.uk)

**RACHUB, LLANLLECHID A THALYBONT**
Capten: Michael Williams
(michaellambchops@hotmail.co.uk)

**GERLAN A BRAICHMELYN**
Capten: Mari Emlyn Wyn
(mariems@hotmail.co.uk)

Holwch eich capteiniaid i gymryd rhan.
Neu dewch i gefnogi eich ardal chi!

Cyngor Gwynedd Council
Derwen
Egwyl preswyl dros nos
Egwyl dros nos efo teulu
Gwasanaeth Cefnogol
Gweithgareddau
Gwirfoddoli
Amser ni
A oes ganddoch ddiddordeb mewn gwirfoddoli gyda plant anabl a'u teuluoedd?
NEU
A oes ganddoch ddiddordeb rhoi egwyl fer i blentyn anabl dros dro?
☎ (01286) 674 686
AmserNi@Gwynedd.Llyw.Cymru

Pob deunydd i law erbyn **dydd Mercher, 3 Gorffennaf** os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu **nos Iau, 18 Gorffennaf** yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

## Y Gerlan

**Caren Brown** Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda LL57 3ST ☎ 602509 / 07789 916166 carenelaine@hotmail.com

**Heledd Selwyn,** 2 Pen Clwt, Gerlan LL57 3TJ ☎ 01248 208254 / 07880 702640 / heleddselwyn@hotmail.com

**Brysiwch wella**
Gwellhad buan i Dafydd Fôn,Stryd y Ffynnon, sydd wedi bod yn yr ysbyty yn cael llawdriniaeth ar ei ben glin yn ddiweddar. Gobeithio y byddwn yn eich gweld yn cerdded o gwmpas ac ar eich beic yn fuan!

Llongyfarchiadau mawr i Tom a Rhiannon Laws 13 Ffordd Gerlan ar enedigaeth eu merch fach Elsie Elizabeth Laws. Mae'r teulu bach yn setlo'n dda a phawb wedi gwirioni.

**Llwyddiant yn yr Urdd**
Yr adeg yma o'r flwyddyn, mae genym bob tro newyddion da i'r Llais am deulu Morris Ffarm Tan y Garth. Eleni, mae Ithel wedi cael ail gyda lluniadu 2d a model o dan 25oed (ady) yn Eisteddfod yr Urdd Caerdydd ac Idris wedi cael ail gyda lluniadu 2d blwyddyn 7,8 a 9 (ady). Llongyfarchiadau mawr i chi'ch dau - da chi mor dalentog! Dyma luniau o'r ddau.

Llongyfarchiadau mawr i Thomas Speddy o Gwernydd sydd wedi llwyddo i gael 2:2 yn ei radd mewn Astudiaethau Ffilm a Theledu ym Mhrifysgol Aberystwyth. Fel mae pawb sydd yn nabod y teulu yn gwybod, maent wedi bod drwy amser anodd iawn dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'r teulu i gyd mor falch o'i lwyddiant. 'Da ni'n dymuno'n dda iti Thomas yn y cyfnod newydd nesaf yma yn dy fywyd. Edrychwn ymlaen i roi llun ohonot yn dy seremoni raddio yn y Llais yn y misoedd nesaf. pob lwc iti!



## Ysgol Abercaseg

**Clwb Ffrindiau Ffitrwydd**
Eleni mi fydd plant yr ysgol yn cael cyfle i ymuno a chlwb Ffrindiau Ffitrwydd. Bydd y plant yn cael cyfle i gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau, gemau a chwaraeon i gadw'n heini.

**Wythnos werdd**
Unwaith eto eleni roedd criw Bysedd Gwyrdd yr ysgol wedi gweithio'n arbennig yn cynllunio a threfnu gwahanol weithgareddau ar gyfer gweddill plant yr ysgol. Fe ddaeth Huw Davies o Antur Waunfawr i'r ysgol i atgoffa pawb i ailgylchu ac ail ddefnyddio. Bu'r plant hefyd yn brysur yn uwch gylchu sbwriel, creu posteri ac ailgylchu dillad. Yn ogystal â hyn rhoddwyd tystysgrifau i bawb ymdrechodd i gerdded i'r ysgol drwy'r wythnos. Da iawn pawb!

**Enillwyr Cystadleuaeth Poster**
Llongyfarchiadau i bawb ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth gwneud poster Grŵp Bysedd Gwyrdd. Bydd y posteri buddugol yn cael eu harddangos o amgylch yr ysgol er mwyn atgoffa pawb ei bod yn bwysig diffodd golau er mwyn arbed trydan ac arian.

**Ar lan y môr**
Cafwyd diwrnod o fwynhau ddiwedd y tymor. Eisteddodd pawb tu allan yn yr haul ar eu blancedi yn bwyta pysgodyn a sglodion a hufen iâ. Diolch i anti Carol a holl staff y gegin am baratoi'r bwyd blasus.



Sefydlwyd 1969
**m.hughes a'i fab**
**CONTRACTWYR TOI**
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.*

BYSUS D. P. Owens RHIWLAS
01248 361044 a 07771 634195




BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER EICH HOLL ANGHENION TEITHIO - TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

**L. Sturrs a'i feibion**
sefydlwyd yn 1965
**ADEILADWYR**
Hen Iard Stesion, Ffordd y Stesion, Bethesda
Ffôn: 600953
lsturrs@googlemail.com

**Cerbydau Penrhyn**
**CABIAU A BYSIAU MINI**
Ffôn: (01248) 600072
Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau
Contractwyr i Wasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru

# Croesair Llais Ogwan



**AR DRAWS**

1 Y côr ffy mewn dryswch yn y cynnwrf (5)
4 Gwasg enwog Gymreig (5)
7 Mewn tair sied fregus ceir drama drychinebus (8)
8 Colli deigryn mewn noswyl o dristwch (4)
9 Ai dyma fyddai cymeriadau 'Rownd a Rownd' neu 'Pobol y Cwm' yn canu mewn bath ? (5,5)
12 Penllanw seremoni eisteddfodol (6)
14 Offeryn i gyfarch gwlad yn 12 Ar Draws (6)
15 Symbol heddwch yw'r gwynion pluog (10)
18 Mae'r twca ar ei newydd wedd yn gwneud pethau yn reit fyr (4)
19 Darn o dŷ yn ei stâd i'w wneud yn fwy (8)
21 Gratis (Lladin) (2,3)
22 "Beth yw ----- glas y nen" (emyn) (5)

**I LAWR**

1 Hoff o fiwsig ? Yn un o'r bobol hyn efallai (8)
2 Stŵr a ffwdan (3)
3 Gwastraffu, fel y Mab Afradlon (5)
4 Dryswch bod yn gudd i'r we. Rhaid cadarnhau cywirdeb (7)
5 Harmonica (ar lafar) (4,5)
6 Cystadleuaeth traws gwlad i geir (4)
10 Materion ynglŷn ag arian a gwneud elw (9)
11 Uchel ei bris (8)
13 A thre flêr mewn siom ryfedd yn dangos llinell ar fap tywydd (7)
16 Pwnc i'w drafod mewn pwyllgor (5)
17 A lwc wedi ei adael wrth ddychwelyd yn ei wneud yn bur wael (4)
20 Heb fod mor bell (3)

**ATEBION CROESAIR MAI 2019**
**AR DRAWS**

1 Gwraig Dda, 6 Mici, 8 Anglia, 9 Asiant, 10 Cymeradwyo, 12 Clwydi, 14 Ymaros, 15 Agosatrwydd, 19 Cyfrif, 20 Romani, 21 Diau, 22 Dadrithio

**I LAWR**

2 Wini, 3 Anlwc, 4 Glaw Mai, 5 Aradr, 6 Meindra, 7 Canlynol, 11 Clogwyni, 13 Ymserchu, 14 Ymwared, 16 Tafod, 17 Ddimai, 18 Cnoi

Dyma enwau'r rhai anfonodd atebion hollol gywir y tro yma : David T. Hughes, Cyffordd Llandudno; J.R. ac M.A. Jones, Rachub; Rhiannon Thomas, Abergwyngregyn; Mair Williams, Mynydd Llandygai; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Dilys Parry, Rhiwlas; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Adrian Poulton, Pentir; Iona Williams, Llanddulas; Gwyneth Jones, Glasinfryn; Doris Shaw, Bangor; Elizabeth Buckley, Dulcie Roberts, Sian Beidas, Tregarth; Rita Bullock, Fflur a Lleucu, Gaynor Elis-Williams, Ann Morris, Bethesda; Dilys Wyn Griffith, Abergele; Jean Hughes, Barbara Jones, Talybont;

Mae gwobr y mis yn mynd y tro hwn i J.R. ac M.A. Jones, Awelon, Yr Ynys, Rachub, Llanllechid, Gwynedd LL57 3ED. Llongyfarchiadau i chi.

Atebion erbyn 5ed Gorffennaf, 2019 fan bellaf i 'Croesair Mehefin', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD.

**Atebion erbyn 5ed Gorffennaf i 'Croesair Mehefin'**
Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

**Enw**

..............................................................................

**Cyfeiriad**

..............................................................................

..............................................................................


Wärme
HEATING
DOSBARTHWYR LLEOL AR GYFER
GWRESOGYDDION STORIO
EFFEITHLON O'R ALMAEN
YN EFFEITHLON O RAN YNNI | DYLUNIAD MAIN | GWARANT 30 MLYNEDD
RHEIDDIADURON TRYDAN
WEDI EU CYNHYRCHU YN YR ALMAEN
Y datrysiad perffaith i gymryd lle eich hen reiddiaduron storio neu system wresogi
• Gwresogi yn sydyn
• Rhaglennu 24/7
• Perfformiad uchel a Glân
• Rheoli pob ystafell yn annibynnol
• Yn gydnaws ag Economy 7
• Dim costau gwasanaethu a chynnal a chadw
• Yn cydymffurfio â Lot20
• Wedi eu gosod gan Osodwyr NICEIC Cymeradwyedig
RHATACH NAG OLEW AC LPG
CYNNIG Y GWANWYN - 10%
I FFWRDD WRTH NODI PAPUR BRO
ER MWYN TREFNU EICH AROLWG RHAD AC AM DDIM FFONIWCH OS GWELWCH YN DDA
01248 371 730 | 07845 034 622 | www.warmeheating.co.uk
APPROVED CONTRACTOR
Ecodesign Compliant

# Gwmni Drama Rachub



Dyma lun o Gwmni Drama Rachub, a dynnwyd rhywbryd yn nhridegau'r ganrif ddiwethaf. Diolch i Mrs Wendy Jones, Bron Arfon, am gael benthyg y llun. Mae ei modryb, a laddwyd ychydig yn ddiweddarach yn ystod yr ail ryfel byd, yn ymddangos ynddo fel morwyn, ar y dde o'r llun.

A ellwch chwi rhoi enw i'r actorion eraill? Cysylltwch a mi, Andre Lomozik, 7 Rhos y Coed, Bethesda. Os gwelwch yn dda!

# Darlith Goffa Dafydd Orwig

Roedd ystafell Llyfrgell Gymunedol Bethesda yn orlawn ar nos Lun, 3 Mehefin, ar gyfer y ddarlith flynyddol. Noson a gynhaliwyd dan nawdd Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd a chyda cydweithrediad Partneriaeth Ogwen.

Hogyn lleol oedd y darlithydd, sef Dr. John Llywelyn Williams, a'i destun oedd "J.O., J.J., J. Glyn a Jennie". Diddorol a difyr oedd gwrando arno'n sôn am ei dad, J. O. Williams, a chysylltiadau'r teulu â J. J. Williams, J. Glyn Davies a Jennie Thomas, â'u dylanwad ar ddiwylliant Dyffryn Ogwen yn y gorffennol. Diolchwyd i John am roddi cymaint o fwynhad i ni fel cynulleidfa gan y Prifardd Ieuan Wyn, llywydd y noson.

Tynnwyd y llun isod ar ddiwedd y noson:-

O'r chwith : Huw Orwig, Mrs. Beryl Orwig, Dr. John Ll. Williams, Prifardd Ieuan Wyn a Nia Griffith, Llyfrgellydd y Sir.



# Lansio Gwaddol - cyfrol o gerddi Gwynfor ab Ifor

Bydd cyfrol o farddoniaeth y diweddar Gwynfor ab Ifor yn cael ei lansio yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst fis Awst. Teitl y gyfrol yw *Gwaddol*, ac ynddi ceir detholiad helaeth ac amrywiol o gerddi caeth a rhydd Gwynfor, gan gynnwys yr awdl 'Tonnau' a enillodd iddo Gadair Eisteddfod Genedlaethol Abertawe yn 2006.

Cynhelir y cyfarfod lansio gan Gyhoeddiadau Barddas yn y Babell Lên ar y Maes am 1.30 o'r gloch ar ddydd Sadwrn cyntaf yr ŵyl, sef 3 Gorffennaf.

Yn cymryd rhan yn y lansiad fydd John Ogwen, Hogia'r Bonc, Elin Gwyn ac Ieuan Wyn.

Bydd copiau o'r gyfrol ar werth yn y cyfarfod.

# Angen gwirfoddolwyr

Ydych chi efo awr neu ddwy i'w sbario i gyfrannu i'ch cymuned? Mae Partneriaeth Ogwen yn chwilio am wirfoddolwyr i'n helpu gyda nifer o brosiectau hen a newydd. Mae'r cyfleon gwirfoddoli yn cynnwys:

- Gweithio ambell shifft yn Siop Ogwen – siop lyfrau a chrefftau gymunedol y pentref
- Trefnu digwyddiadau llenyddol ar ran Siop Ogwen
- Plannu cymunedol efo prosiect Egin Ogwen
- Casglu sbwriel
- Glanhau sgriniau a gwneud gwiriadau yng nghwt tyrbein Ynni Ogwen

Os hoffech drafod y cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael, cysylltwch â partneriaeth@ogwen.org 01248 602131.

**Homeopathy Clasurol**

WENDY SCRASE RSHom MFHom (Nurse)
Homeopath a Nyrs gofrestredig

*Gofal Iechyd Integredig - Yn gofalu am a person cyfan*

Clinig Wythnosol: Clwb Rygbi, Bethesda,
Hen Iard Stesion, Bethesda, LL57 3NE

Ffôn Symudol: 07791411502
Ebost: wendy.scrase@gmail.com
Facebook: @WendyScraseHomeopathy

# Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda
☎ 600853
Barbara Jones,
1 Dol Helyg, Talybont ☎ 353500




## Cic-bocsio

Hogyn arall o Dalybont sy'n gadael ei ôl ym myd Cic-bocsio ydi Billy Jones, 16 oed, o 33 Cae Gwigin. Daeth yn ail yn ei ddosbarth yng Nghystadleuthau Ewropeaidd y WMO a gynhaliwyd yn Rugby ar ddechrau mis Mai.
Ar hyn o bryd, mae'n hyfforddi ar gyfer Pencampwriaeth y Byd a gynhelir ym mis Tachwedd yn Blackpool.
Hwyl fawr a phob llwyddiant iti, Billy ! Byddwn yn dilyn dy hynt gyda diddordeb mawr.

**Babis newydd**
Mae Charlie wedi cyrraedd 3 Cae Gwigin ers pedwar mis bellach. Mae o'n ddigon o ryfeddod ac yn gwenu'n braf ar bawb. Mab bach Nia a'i chymar Michael ydio, ac yn frawd bach i Katie a Jess . Dw i'n siwr bod y genod wedi gwirioni efo fo ac yn ei ddifetha'n racs .

Cafodd Eli, 9 Cae Gwigin, ei geni i Sharon a Siôn ddau fis o flaen Charlie. Mae hithau 'n hogan fach hapus iawn ac yn gannwyll llygad ei brawd mawr, Jac.

Dw' i wir yn methu deall sut mae newyddion mor bwysig heb ein cyrraedd ni cyn hyn.
Mae clywed am ddyfodiad babi newydd i'r pentref yn codi calon pawb.

**Babi newydd sbon.**
Ac ar y gair, dyma Harri yn cyrraedd ar ddydd Mercher, Mehefin 5ed, i lonni'n calonnau i gyd. Mab Karen a Mark , 69. Bro Emrys ydi Harri, ac mae ganddo dri brawd lawer hŷn na fo, Jake, Sam a Cory, sy'n meddwl y byd ohono'n barod. 'Chei di byth gam, Harri bach, efo'r tri yna ar dy ochr di ! Pob bendith arnoch oll.

**Cymydog newydd**
Estynnwn groeso cynnes i Gary i 2 Cae Bach. Un o Cork, yn yr Ynys Werdd, ydi o'n wreiddiol, ond wedi treulio blynyddoedd ym Mhenbedw cyn symud i fyw i Dregarth. Gobeithio y byddi'n hapus iawn yn Nhalybont, Gary.

**Gwellhad buan!**
Anfonwn ddymuniadau gorau at Claire Hughes, 13 Cae Gwigin, sydd wedi gorfod treulio ychydig o amser yn Ysbyty Gwynedd yn ystod y mis . Brysia wella , Claire!

**Penblwydd arbennig**
Llongyfarchiadau i Margaret Fearnley, ffrind a Chyngorydd hynod o weithgar, fu'n dathlu penblwydd arbennig ar ddechrau'r mis hwn. Penblwydd Hapus iawn iti, Mag, a diolch am dy holl waith caled yn mynd i'r afael â'r gwahanol broblemau sy'n codi o bryd i'w gilydd yn y pentref lle cefaist dy fagu. Gwerthfawrogwn dy ymdrechion i'n helpu yn fawr iawn.

**Llwyddiant ysgubol**
Mae Mitchel Jones, 11 oed, o 70 Bro Emrys, wedi cyflawni camp aruthrol ym maes paffio. Llwyddodd i gyrraeddd rowndiau terfynol Gornest Bocsio Cymru a gynhaliwyd yng Ngerddi Sophia, Caerdydd, yng nghanol mis Mai.
Roedd Mitchel yn cynrychioli Clwb Bocsio Llandudno, lle mae'n aelod brwd ers 4 blynedd.
Hedfanodd i lawr i Gaerdydd efo'i dad, Paul, a llwyddo i ennill yn y dosbarth ar gyfer bechgyn ysgol. Fel canlyniad, ef yw Pencampwr Cymru, 2019, ( CYMRU, sylwer! )
Mitchel, mae pobl Talybont yn falch iawn ohonot. Dalia ati!

**Medal haeddiannol iawn**
Mae Mrs Enid Davies, Bryn Derwas, wedi derbyn medal i gydnabod ei gwaith clodwiw efo Mudiad Gwasanaeth Gwirfoddol ei Mawrhydi yn Ysbyty Gwynedd am gyfnod o dros bymtheng mlynedd.
Llongyfarchiadau calonnog, Enid! Gwyddom oll am dy wên siriol, a'th barodrwydd i helpu pawb aiff i chwilio am banad a thamaid o luniaeth i gaffi'r RVS.



**Eglwys St Cross, Maes-y-Groes**
Dydd Sadwrn, Mehefin 22ain: Te Mefus yn yr Ysgoldy am 3.00 p.m. Dewch yn llu. Cewch groeso cynnes!
Dydd Sadwrn, Gorffennaf 13eg: Garddwest y Tair Eglwys, yn Ficerdy Pentir am 1 o'r gloch.

**Capel Bethlehem**
*Oedfaon*
Mehefin 23: Y Gweinidog.
Mehefin 30: Parchg. Trefor Lewis.
Gorffennaf 7: Parchg. Gwyndaf Jones.
Gorffennaf 14: Gweinidog.
Gorffennaf 21: Parchg. Dafydd Job.
Gorffennaf 28: Parchg. Eifion Wyn Williams.

Oedfaon am 2 o'r gloch oni nodir yn wahanol.
Croeso cynnes i bawb.
Ysgol Sul am 10 yb. Croeso i aelodau newydd.

*Oedfa Ysgolion Sul*
Braf oedd gweld y capel yn rhwydd lawn ar y Sul arbennig hwn yn hanes Bethlehem. Dymuna swyddogion Eglwys ac Ysgol Sul Bethlehem ddiolch yn gynnes iawn i bawb am eu cefnogaeth i'r Oedfa a gynhaliwyd yma ar 19 Mai. Cafwyd bore llwyddiannus a diolchwn i'r dair Ysgol Sul, sef Bethlehem, Carmel ac Emaus am eu cyfraniadau graenus a gwerthfawr i'r oedfa. Diolch i Mrs. Helen Wyn Williams, Carmel am gyfeilio, ac i Mr. Joe Hughes, Carmel, am ei waith yn cyflwyno gwobrau i 75 o blant am eu gwaith a'u ffyddlondeb i'r Ysgol Sul.

*Hwyl Ysgolion Sul*
Mae Ysgol Sul Bethlehem wedi estyn gwahoddiad i Ysgol Sul Carmel Llanllechid i ddod i Dalybont ar fore Sul, 23 Mehefin. Bore llawn hwyl fydd hwn gyda'r plant yn cael cyfle i ddod i adnabod ei gilydd drwy gyd-chwarae, ac wrth gwrs bydd barti bach cyn y diwedd!

*Croeso 'nôl*
Mae'n braf medru croesawu Mrs. Eirlys Ellis i'r oedfaon ar bnawniau Sul unwaith eto, yn dilyn absenoldeb o 6 i 7 mis oherwydd gwaeledd difrifol ac amser maith mewn ysbytai. Rydym i gyd wrth ein bodd ei gweld hi yn ei sedd fel arfer. Daliwch ati i wella Eirlys!

*Bwrlwm Bethlehem*
Mae criw'r Bwrlwm yn dal yn ffyddlon iawn i'r cyfarfodydd bob bythefnos ac yn mwynhau cwmni ei gilydd yn fawr. Braf ydi gweld
Llew Jones yn dod er gwaethaf ei lesgedd i fwynhau'r sgwrsio a'r baned a'r 'sgedan. Er, mi gawsom gacan bob un y tro diwethaf, diolch i Enfys, gwraig Llew oedd yn digwydd dathlu ei phenblwydd yn ?? oed ar y diwrnod! Cofiwch bod croeso i bawb alw i mewn unrhyw bryd., ac yn wir pwy alwodd heibio ond un o blant yr ardal, sef Avis o deulu'r Fedw gynt, a fu'n byw yn 21 Cae Gwigin am gyfnod. Symudodd i Gilgwri (Wirral) flynyddoedd lawer yn ól. Roedd yn hydryd iawn cael ei chroesawu hi a'i merch, Hilary, a'i hwyres, Chloe i'r Bwrlwm.

*Te Mefus*
Cofiwch am ein Te Mefus blynyddol ar nos Fercher, 3 Gorffennaf,yn y festri am 7 o'r gloch.

# Y Dyddiadur toriadau (10)

## Detholiad gan Derfel Roberts

*(sef adroddiadau o bapurau Newyddion Cymraeg fel 'Y Cloriannydd' a rhai eitemau eraill wedi eu gludio ar dudalennau dyddiadur bychan 10cm x 6cm [4m x 2½m] yn dyddio o 1933, oedd yn eiddo i John Owen, Garnedd Wen, Llanfairpwll.)*

Y tro hwn awn ymlaen i ddyfynnu mwy o'r penillion a gafodd eu hysgrifennu oddi ar y cof gan blant Ysgol Gynradd Llanfairpwll yn 1908 ac unwaith eto ni ymyrrwyd â'r iaith na'r atalnodi, ond dyfynnir nhw fel maen nhw'n ymddangos yn y dyddiadur bach.

Mae'r mwyafrif o'r penillion yn rhai pur ddoniol ond efallai yn yr oes fwy sensitif a chroen denau hon byddai rhai'n gwgu ar y sylwadau dirmygus, os nad creulon, sy yn rhai o'r rhigymau.

**Mae gen i gariad yn y wlad**
**Ogla beudy ar ei thraed.**
**Mae gen i un arall fechan, siort**
**Am ei phen hi rwy'n cael sbort,**
**Ar y stol yn estyn cusan –**
**Dyn a'i helpo mae hi'n fychan.**

**Mae gen i hen iar dwrci**
**A mil o gywion dani;**
**Pob un o'r rheiny gymaint ag ych,**
**Ond celwydd gwych yw hynny.**

Yn y pennill nesaf ceir adlais o'r hen ysfa i fynd ymhell oddi cartref i geisio gwell byd. Pan gyfansoddwyd rhain roedd y Cymry yn heidio i Lerpwl i chwilio am waith oedd yn talu'n well na'r hyn oedd i'w gael ar y ffermydd gartref. Sylwch ar y nodyn chwithig ar ddiwedd y rhigwm cyntaf a'r hiraeth sicr a ddaw i ran y rhigymwr mor bell oddi cartref yn y dyddiau hynny. Ers talwm yn y ffeiriau Glanmai a Glangaeaf y cai gweision a morynion ffermydd mawr cefn gwlad eu cyflogi am y tymor.

**Mi af i Lerpwl Glanmai,**
**Os byddaf byw ac iach,**
**Arosai ddim yn Llanfair**
**I dorri 'nghalon fach;**
**Mae cyflog gwell yn Lerpwl**
**A swper gyda'r nos,**
**A mynd i'r gwely'n gynnar**
**A chodi chwech o'r gloch.**
**Os byddaf farw yn Lerpwl,**
**O gyrrwch at fy mam,**
**Am saith o lanciau ifainc**
**I gario 'nghorff i'r lan.**

**Ffarwel i Drefor Harri**
**A'r gwely trwmbal trol,**
**Lle bu'm i lawer noswaith,**
**Yn ddigon gwag fy mol;**
**Mi glywaf Harri'n dwad**
**Gan chwiban gyda'r gwynt**
**Tra'n gweiddi, "codwch lanciau,**
**Mae'n chwarter wedi pump."**

**Ac wedi i'r llanciau godi**
**A mynd a'r fen i'r dwr,**
**A dŵad yn eu holau**
**Cant botes blawd a dŵr,**
**A ll'gada mawr y feistres**
**Fel cocos ar y traeth,**
**A geiriau sosi'r forwyn**
**Oedd imi'n llawer gwaeth**

**A hithau yn ei chlocsiau**
**Yn gweithio uwd bob nos,**
**Ac efo'i phiser rhydlyd**
**Yn cario dwr o'r ffos;**
**Mi rwdlith ac mi rwdlith**
**Nes gwnaeth hi o'n ddigon tew,**
**A llawer penbwl ynddo**
**A llawer pryd o flew!**

Yna ceir y rhigwm bach yma sy'n mynegi awydd ysol yr awdur am dybaco.

**Tybaco bach, tybaco.**
**Tybaco, rwy'n dy leicio.**
**Pe cawn i geiniog am fy mam**
**Mi gwerthwn hi am dybaco.**

I derfynu am y tro wele rigwm am dlodi sy'n dangos adnabyddiaeth o'r natur ddynol a pha mor chwit chwat yw pobl a pherthnasau pan fo arian yn y cwestiwn.

**Pan oeddwn i'n gyfoethog**
**Cyn imi fynd yn dlawd,**
**Mi roeddwn i yn ewyrth**
**Ac yn gefnder i bawb:**
**Ond wedi imi dorri a mynd i ddyled**
**Nid ydwyf nac ewyrth na chefnder i neb.**


**Gareth Williams**
**Trefnydd Angladdau**

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS



**Elwyn Jones & Co**

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

*Swyddfeydd eraill:*
*Llangefni (01248) 723106*
*Porthaethwy (01248) 719517*
*Benllech (01248) 852782*
*Caernarfon (01248) 673616*
*Pwllheli (01758) 703000)*



Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

*Arbenigo mewn meysydd awyr*
*Cludiant Preifat*
*a Bws Mini*



01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk


## Dwy Gacen Afal

PANTRI PAT

***Cynhwysion***

4 afal melys (go fawr).
1 pecyn o grwst pwff (*puff pastry*) wedi ei wneud o fenyn.
1 potyn o saws caramel, neu ei wneud efo 4-5 llwy fawr o siwgr coch (brown) wedi ei orchuddio efo dŵr oer. Ei ferwi tan fydd yn dechrau tewychu.

***Dull***

Rhowch y crwst ar hambwrdd wedi ei orchuddio efo papur saim. Hanerwch y crwst i lawr y canol.
Torrwch yr afalau yn eu hanner. Wedyn, tafellu'r haneri a'u torri'n dafellau cyfarfal eu maint.
Rhowch y tafellau yng nghanol y crwst (y ddau hanner) yn glòs efo'i gilydd mewn un rhes.
Tywalltwch y saws caramel i orchuddio'r ddwy res.
Rhowch o yn y popty (200°) am 15-20 mun.
Rhowch y ddwy gacen ar blat neu hambwrdd, eu tafellu a'u bwyta efo hufen iâ.

Mwynhewch!

# Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, 13 Hen Barc, Llanllechid, Bangor, LL57 3RS. 01248 605582 a 07887624459 henbarc13@gmail.com

**Capel Carmel - ymddiheuriadau**
Am rhesymau technegol nid oedd yn bosib i ni gynnwys newyddion Capel Carmel y tro hwn. Byddwn yn ei gynnwys yn y rhifyn nesa'.

**Swyddfa Bost**
Yn anffodus, bydd rhaid i Swyddfa Bost Llanllechid gyfyngu'r gwasanaeth i'r boreau'n unig ond diolchwn iddynt am eu gwasanaeth prynhawn gwirfoddol di-dâl dros y blynyddoedd. Bydd y siop yn dal i fod yn agored fore a phrynhawn.

Dymunwn yn dda i'r cynghorydd Pearl Evans wedi ei llawdriniaeth yn ddiweddar a llongyfarchwn y cynghorydd Godfrey Northam am ei bresenoldeb 100% unwaith eto mewn cyfarfodydd o Gyngor Bethesda yn ystod 2018-19

Croesawn y cynghorydd Paul Rowlinson a'i deulu adref wedi eu gwyliau yn Ne America, a diolchwn iddo am ei waith gwirfoddol efo Balchder Bro.

**Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau i Gwydion Rhys, Bron Arfon ar ei lwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerdydd a'r Fro. Enillodd Gwydion yr Unawd Llinynnol (Blwyddyn 10 a than 19 oed), Dyma fo efo'i gyfeilydd yn y gystadleuaeth - ei dad, Stephen Rees.



**Clwb Llanllechid**
Cynhaliwyd y clwb prynhawn Mercher, Mai 8fed. Croesawodd y llywydd pawb i'r cyfarfod. Roeddem yn falch o glywed fod Blodwen yn ôl adref ar ôl cael triniaeth yn yr Ysbyty.Hefyd yn falch fod Myfanwy yn ôl ym Mhlas Ogwen ar ôl cyfnod yn yr Ysbyty.

Llongyfarchwyd Medi ar fod yn hen nain i Ava Wyn.

Nid oedd ganddom siaradwr gwadd ond cawsom sgwrs diddorol iawn gan Ceinwen am hanes Betsi Cadwaladr a Florence Nightingale. 'Roedd y ddwy yn nyrsio adeg y Rhyfel Fawr. 'Roedd yn ddwy yn gymeriadau hollol wahanol i'w gilydd.'Roedd Betsi reit glyfar a diddordeb yn y Theatr.'Roedd Florence Nightingale o deulu cefnog a braidd am edrych i lawr ar Betsi.

Yna cawsom benillion am yr hen arferion a phawb yn cofio sut yr oedd pethau yn yr hen ddyddiau.

Arfona a Margaret oedd yn paratoi y te.Rhoddwyd y raffl gan Vera a Margaret Rees Williams a enillodd.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Fehefin 5ed.

**Clwb Hanes Rachub a Llanllechid.**
I gloi'r tymor, daeth nifer fawr ynghŷd i sgwrsio a hel atgofion am Maes Bleddyn. Daeth llawer o breswylwyr gwreiddiol Maes Bleddyn yno, ac wrth wrando ar eu hanesion, cafodd y gweddill ohonom ddarlun byw o'r gymuned hapus, gymdeithasol, Gymraeg a chlos dros ben, a fodolai yno.

Mae Maes Bleddyn yn cynnwys 60 o dai, ond dim ond 30 ohonynt a adeiladwyd ym 1948, gan gwmni o Loegr o'r enw 'Pochin', a cyfeiriwyd at drigolion y tai cyntaf fel 'pobol tai Pochin'. Yna adeiladwyd y 30 arall ym 1951, ac roedd y tai, i gyd, yn rhai o safon uchel iawn. Yn wir, roeddynt yn llawer mwy modern na nifer o dai eraill oedd yn Rachub ar y pryd, gan eu bod yn cynnwys lle chwech tu mewn, ac ystafell 'molchi iawn. Roedd llawer o blant 'tai Pochin' yn cofio gweddill y stad yn cael ei hadeiladu, ac arferent fynd i chwarae'n rhwydd i'r tai gweigion [tai oedd ar hanner cael eu hadeiladu] gan nad oedd math o rwystrau na rhybuddion diogelwch yno. Yn ôl y trigolion, digwyddodd sawl damwain wrth iddynt ddringo i lofftydd y tai, - a hynny cyn i'r grisiau gael eu gosod!

Adeiladwyd y stad ar ffurf pentagon, gyda lle gwag yn cynwys glaswellt yn y canol, ac yn wir fel 'Y Canol' y cyfeiriwyd at hwn. Yma y digwyddai'r cymdeithasu, y chwarae, y criced, y peldroed yn ogystal â'r goelcerth flynyddol pob mis Tachwedd. Roedd pawb yn cofio mynd i dŷ hwn a'r llall yn rheolaidd e.e. mynd i dŷ rhywun i weld ffilm 'Cowbois' neu 'London Palladium' ar y teledu, a mynd i dŷ rhywun arall i gael crempog a,y,y,b. Roedd gan y trigolion eu system arbennig o dderbyn a dosbarthu papurau Dydd Sul, ac roeddynt ar flaen y gâd pan ddeuai cyfle i ddathlu neu gymryd rhan mewn digwyddiadau cymdeithasol. Roedd parti mawreddog yno i ddathlu coroni'r Frenhines ym1953, ac roeddynt yn flaenllaw iawn wrth gymryd rhan yng Ngharnifal Rachub.

Roedd cymeriadau Maes Bleddyn yn bobol mor ddiddorol a lliwgar, ac roedd cymaint yn digwydd yno i ddiddori a diddanu unrhyw blentyn! Roedd na ddyn gwneud triciau'n byw yno [aelod llawn o'r 'Magic Circle'], dynion yn cadw caneris, gŵr yn hyfforddi plant i adrodd, ac yn mynd a'i barti cyd- adrodd o amgylch nifer fawr o eisteddfodau, peldroedwyr o'r safon uchaf, pobol ffraeth – pob amser yn barod i dynnu coes, yn ogystal â chŵn anhygoel fel Toby, Stalin a Bonzo!

Llwyddodd y gymdeithas wych yma i fagu crefftwyr dawnus, perfformwyr enwog, arbenigwyr o'r byd addysgol a meddygol, pobl busnes a llawer mwy! Does ryfedd, - o gofio bod y rhain wedi'u magu yn yr amgylchfyd diogel, cynnes a chartrefol oedd yn bodoli ar stad Maes Bleddyn.

Diolch i Adrian a Peter am arwain y sgwrsio gyda'u hanesion difyr. Bydd cyfarfod nesaf y Clwb ar y 25ain o fis Medi.

## Plaid Cymru – Cangen Dyffryn Ogwen

Mae'r Gangen yn llongyfarch y Cynghorydd Dafydd Meurig ar gael ei ethol yn Is-arweinydd Cyngor Gwynedd, ac yn ddiolchgar iddo am ei holl waith. Diolch hefyd i'n tri chynghorydd Sir arall sef Dafydd Owen, Rheinallt Puw a Paul Rowlinson am eu gwaith hwythau dros etholwyr Dyffryn Ogwen.

Llongyfarchiadau i Jill Evans a fydd yn ein cynhrychioli ym Mrwsel fel Aelod Senedd Ewrop, ac sydd wedi bod yn ddiwyd iawn yn ystod ei hamser yno ers 1999.

Os oes unrhyw un angen mwy o wybodaeth amdanom neu am gysylltu â ni yna cewch fanylion cyswllt ein pedwar Cynghorwyr Gwynedd yn nhudalennau Llais Ogwan neu cysylltwch â'r ysgrifennydd ar maryeds@hotmail.co.uk neu 07443047642.

SAMARIAID
Mae
Llinell Gymraeg
0808 164 0123
ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Arfbais Douglas Arms
Cwrw Casgen - Gardd Gwrw
Noson Cwis Yr ail nos Fawrth bob mis – 20:00
Oriau Agor
Llun - wedi cau
Mawrth – Gwener 18:00 – 23:00
Sadwrn 15:30 – 00:00
Sul 13:00 – 15:00 a 20:00 – 23:00
douglasarmsbethesda.com
01248 600219


# Nyth y Gân

**Y GOF**
Am oriau maith bu wrth ei waith
Yn trin yr haearn caled;
Ei daro'n gyson fel o'r blaen
A sŵn y straen i'w glywed.

Yr engan oedd wrth gefn pob bloedd
O'i rhoi o hyd dan bwysau;
Bu'n gadarn yno'n dal y gwres
I'r broses greu y siapiau.

Mae'r grefft a'i chlod yn dal i fod
A'r haearn nawr yn gampwaith;
A'i osod wedyn yn rhyw fan
I'r cyfan fod yn berffaith.



**CARREG ATEB**
O fry daw canu'r graig hon, – o wyneb
Un o'r meini moelion;
Ni ddaw i neb atebion
Ond adlais i'w llais yn llon.

**BACHGEN YN GWNEUD PIB**
Hwn wyddai sut i naddu, a gallai
Efo'r gyllell dynnu
Nodau mân drwy chwibanu
Yno dôn o fewn ei dŷ.

**BRWYNEN**
Ei chysur yw ei choesyn, ond eto
Nid yw'n dwt ei blodyn,
A braf yw bro efo'i brwyn
Yn ysgwyd ac yn esgyn.

**Dafydd Morris**

**Y CEILIOG MWYALCH**
Â'i ddwy loyw em yn tremio, y mae ias
Ym miwsig ei frolio;
A'r wisg sidan amdano'n
Y wig las yn ddu fel glo.



**Y WENNOL**
Yn union daeth y wennol heb oedi
I'r beudy'n dymhorol;
Ddoe bu'n chwarae uwch y ddôl
Yn ddawnus a hamddenol.

**CROESAWU'R HAF**
Mor hen yw'r haf eleni
Yn llawn, ysgubol fell li,
Yn braf fel dewin mewn bri.

Estyn ei felyn a fyn,
Mor aidd yw grym ei wreiddyn
O gael oed ar faes a glyn.

Ffrwythau ar gaeau, a gwellt,
A hynod fysedd manwellt
O waith Duw fel rhwydwaith dellt.

Deilen â'i mirain feinwe,
A gwawn hyd dafodau gwe
Yn dwym yn awel y de.

Ar y rhiwiau'n yr awel
Mai hardd yn diferus mêl –
Naf yn creu'r cyfan a wêl.

**Goronwy Wyn Owen**

## Marion Arthur Jones

Ddydd Mercher, Mai 17, bu farw Marion Arthur Jones, yn 83 oed. Roedd ei thri mab, Arthur Emyr, Dafydd Emyr a Garmon Emyr, wrth ei gwely yn Ysbyty Gwynedd pan ddaeth ei chystudd cymharol fyr i ben yn dawel ac urddasol. Roedd wedi treulio blynyddoedd yn Ne Cymru ac yn briod ag Emyr Jones, Arolygydd Ysgolion, a fu farw ddechrau'r 1980. Rai blynyddoedd ar ôl hynny, symudodd Marion yn ôl i'r Gogledd ac ymgartrefu ym Melin Bryn Gro, Llanllyfni. Tystiodd y gynulleidfa luosog a ddaeth i'w hangladd yng Nghapel Soar, Pen-y-groes, mor boblogaidd oedd Marion yn yr ardal a chymaint fydd y golled ar ei hôl.

Ym Methesda y ganwyd Marion ac yn rhif 20 Rhes Ogwen y bu'n byw gyda'i rhieni nes yr oedd yn dair oed. Y Parchedig Thomas Arthur Jones oedd ei thad a daeth yn Weinidog Capel Jerusalem ym 1933. Roedd yn ŵr poblogaidd ac uchel ei barch yn Nyffryn Ogwen ond ym 1939, wedi dechrau'r Ail Ryfel Byd, torrodd cymylau duon dros fywyd a gyrfa Thomas Arthur a barodd iddi ymddiswyddo o fod yn Weinidog Jerusalem a symud i Amlwch, lle hyfforddodd i fod yn dwrnai (a byddai pobl yn ei adnabod fel 'twrna'r dyn tlawd'). Darllenwch y llyfr rhagorol a ysgrifennodd Marion am yr hanes – a hanes ei thad yn gyffredinol – *Y Diwyd Fugail a Helynt y Faciwîs* (Gwasg y Bwthyn, 1915).

**CAFFI COED Y BRENIN**
1 Rhes Buddug, Bethesda
**Ffôn: 01248 602550**
karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
*(mewn awyrgylch cyfeillgar)*
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math - plant, pen-blwydd ac ati
*(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)*
Cacennau ar gyfer pob achlysur e.e. priodas neu ben-blwydd
Prisiau rhesymol

**BISTRO'R BRENIN**
**(Bwyty Trwyddedig)**
Rydym yn croesawu partïon o bob math – dathlu pen-blwydd ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i
**Londri Coed y Brenin**
wneud eich golchi

**JOHN ROBERTS**
Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr



**Symudol: 07747 628650**
**Ffôn: 01248 600995**

**Londis Bethesda**
☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Peiriant codi arian di-dâl
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

Modurdy Central
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

MODURDY FFRYDLAS
Profion M.O.T.
Perchennog
A. Ll. Williams
Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦
GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN
☎ 600723
Ffacs: 605068

SIOP OGWEN
33 Stryd Fawr, Bethesda
Peidiwch anghofio am Siop Ogwen. Galwch draw!
Anrhegion a chrefftau lleol, Cardiau, Llyfrau, Coffi Poblado, Jam Cartra, CDs, Lluniau, Gemwaith, Sebon, Canhwyllau, Dillad, Golwg, Y Cymro, Llais Ogwan a llawer mwy!
Cewch archebu llyfrau Cyngor Llyfrau Cymru trwy'r siop, neu gylchgronau (e.e. Barn, Mellten, Bore Da, Y Traethodydd, O'r Pedwar Gwynt ayyb) a CDs hefyd.
Ar agor ddydd Mercher (10-2), Dydd Iau /Gwener (10-5) a dydd Sadwrn (10-3).
siop@ogwen.org
01248 208 485

# CHWILAIR

## Llyfrau'r Beibl

Yn y chwilair mis yma mae TEITL DEUDDEG LLYFR O'R BEIBL i'w darganfod, Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn GORFFENNAF 1af . Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | W | F | D | J | O | N | A | H | R | I | E | J | L | C | M | B | V | B |
| H | P | L | X | J | E | U | I | H | S | V | S | H | E | I | M | G | V | H | M |
| D | R | C | W | G | H | U | U | Z | O | M | X | V | A | D | D | N | A | P | A |
| U | E | I | E | Q | A | U | T | S | O | S | F | R | P | Y | Q | Z | G | R | H |
| C | G | N | S | U | M | L | W | E | N | O | E | Y | R | I | A | S | Z | U | T |
| F | E | O | T | D | X | U | A | P | R | W | R | A | H | C | Q | H | W | E | H |
| O | T | R | H | Y | E | E | G | R | E | O | O | M | H | E | P | T | T | C | B |
| B | H | C | E | C | U | U | J | P | N | L | N | T | M | I | V | V | D | C | B |
| B | W | Y | R | F | R | F | O | G | J | A | V | O | I | I | R | R | A | X | I |
| M | R | R | H | T | T | O | N | S | K | O | D | P | M | W | R | R | C | M | K |
| C | B | F | O | R | C | X | O | V | R | Y | H | S | T | I | S | M | R | E | F |
| Y | J | Y | D | Z | H | B | M | C | W | O | S | C | R | E | U | A | I | X | N |
| I | L | L | X | J | J | M | O | B | W | T | E | X | R | M | D | M | X | K | F |
| U | P | L | C | Q | Y | O | L | I | L | F | E | F | R | Z | Q | R | O | C | T |
| D | G | I | W | S | S | L | O | Z | E | B | Y | E | A | J | K | J | C | L | N |
| L | R | A | V | O | O | G | S | J | P | L | W | P | G | S | O | W | J | J | Q |
| U | L | F | S | V | T | M | X | E | L | U | G | H | S | L | Z | E | A | F | X |
| I | W | T | U | A | M | L | A | S | ~~S~~ | ~~A~~ | ~~C~~ | ~~H~~ | ~~A~~ | ~~R~~ | ~~E~~ | ~~I~~ | ~~A~~ | Z | H |
| K | V | A | G | B | N | K | A | D | S | I | K | O | G | D | H | B | S | I | U |
| R | O | X | A | G | X | R | E | A | E | K | K | D | A | N | T | O | G | W | B |

Mae'n rhaid i mi syrthio ar fy nghleddyf y mis yma ac ymddiheuro i chi, rhywsut nei gilydd wrth drosglwyddo'r chwilair o un cyfrifiadur i'r llall anghofiais aroleuo y cliw i chi. Gobeithio fod hyn ddim wedi creu gormod o anhawster! Rwyf wedi dewis deuddeg llyfr o'r beibl fel testun y mis yma. Mae'r gair LLYFR yn ymddangos yn rhai o'r teitlau. Roedd atebion Shaun Osian Hughes, Bethesda, a Mr a Mrs J. Hughes, Abergele, i chwilair Ebrill, wedi cyraedd yn hwyr trwy'r post. Nifer fawr ohonoch wedi rhoi YR EOS fel ateb yn chwilair Mai, ond nid oes papur á'r teitl yna yn ymddangos yng nghasgliad arlein Llyfrgell Genedlaethol Cymru. **Dyma atebion Mai:** Amserau; Brython Cymreig; Clorianydd; Cymro; (dyma'r cliw) Darian; Dinesydd Cymreig; Drych; Goleuad; Papur Pawp; Seren Gomer; Y Genedl; Yr Herald Cymraeg. **Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb cywir:** Rosemary Williams, Tregarth; Marilyn Jones, Bethesda; Elizabeth Buckley, Tregarth. **Enillydd Mai oedd:** Marilyn Jones, 1 Glanffrydlas, Bethesda, Bangor.

# Ysgol Bodfeurig

**Taith addysgol i Pili Palas**
Ymweliad i Pili Palas gafodd dosbarth Tryfan mis yma er mwyn dysgu mwy am y bwystfilod bach. Cawsom daith o amgylch yr anifeiliaid gan ddysgu mwy am y trychfilod a chyffwrdd ambell un! Casom lawer o hwyl ac wedi dysgu llawer gan staff Pili Palas.



**Bake off**
Casglwyd £185 i'r ysgol drwy gynnal cystadleuaeth coginio cacen ar y thema Yr Haf. Ar ôl y beirniadu, roedd gwledd yn aros am y rhieni dros baned. Diolch i bawb am gyfrannu.



**Prynhawn agored**
Braf oedd croesawu rhieni newydd i Ysgol Bodfeurig yn ystod y prynhawn agored. Roedd cyfle i rhieni Meithrin flwyddyn nesaf ddod i weld y dosbarth a chael sgwrs.



**Diwrnod lliwgar**
Daeth y plant â phlanhigion lliwgar a hadau i'r ysgol fel rhan o'n diwrnod lliwgar. Bum yn brysur iawn yn tacluso yr ardd a phlanu llysiau, ffrwythau a blodau yn barod am yr Haf. Diolch yn fawr i'r rhieni am gyfrannu eitemau i'r ysgol. Diolch hefyd i'r rhieni wnaeth ymuno gyda ni i roi help llaw.





**Dosbarth Idwal**
Mae dosbarth Idwal wedi bod yn brysur yn ystod eu thema Môr Ladron. Cafwyd helfa drysor o amgylch tir yr ysgol. Da iawn blant am ddarganfod y trysor i gyd!



# Pentir

**Cynrig a Carys Hughes,**
Rallt Uchaf, Pentir,
LL57 4YB. ☎ 01248 601318
E-bost: carys16@hotmail.com

**Eglwys St Cedol, Pentir**
Clwb 100 Mis Mai 2019
1af Rhif 12 Jac Hughes, Rhiwlas
2ail Rhif 53 Gwyn Jones, Llanddeiniolen
3ydd Rhif 24 Nia Roberts, Rhiwlas

**Garddwest**
Cynhaliwyd ein Garddwest flynyddol eleni yn Ngardd Y Ficerdy, Pentir, ar brynhawn Sadwrn y 25 o Fai. Roedd amryw o stondinau. Roedd raffl ar gyfer teisen a'r enillydd oedd Mrs. Janet Williams, Tregarth.

Diolchodd Y Parchedig John Matthews i bawb. Yn dilyn yr arddwest cafwyd pryd blasus yn Y Llechen, Talybont.

**Bora Coffi**
Bydd yr Eglwys yn cynnal Bora Coffi yng Nghanolfan Cefnfaes, Bethesda Dydd Sadwrn 22 Fehefin am 10yb, Croeso cynnes.

**Gwasanaethau'r Sul**
Mae'r gwasanaethau am 9.45yb
23.6.19 Boreol weddi
30.6.19 10.30am Cymun bendigaid – gwasanaeth ar y Cyd Glanogwen neu St Tegai
7.7.19 Cymun Bendigaid
14.7.19 Boreol Weddi
21.7.19 Cymun Bendigaid
Mae croeso cynnes i chwi ymuno a ni.

**Ras Hwyl Pentir**
Cynhelir Ras Hwyl Pentir nos Fawrth, 9 Gorffennaf, 2019 am 7.00pm. Mae'r ras erbyn hyn ar ei thrydedd flwyddyn a nawr yn rhan o ddigwyddiadau blynyddol yr ardal. Mae'r cwrs 4.5km yn mynd ar hyd lonydd distaw a chaeau yn ardal Pentir. Gellir cofrestru ar lein cyn y dyddiad www.fabian4.co.uk neu mae'n bosib cofrestru ar y diwrnod am 5.45pm o flaen Tafarn y Faenol yn sgwâr Pentir.

Bydd unrhyw elw a wneir yn mynd tuag at y cronfeydd canlynol: Cronfa Diffibriliwr Lleol; Cronfa Cancer Gogledd Cymru; Cronfa Cancer y Coluddyn y Deyrnas Unedig

**Taith Gerdded Lôn Plas**
Bydd taith gerdded yn cychwyn o Gapel Peniel, Waen Pentir, Rhiwlas am 6.30pm nos Iau, 25 Gorffennaf, 2019. Bwriad y daith yw dilyn Lôn Plas gan dynnu sylw i gysylltiadau lleol teulu'r plasty. Bydd y daith yn mynd i sgwâr Pentir, Eglwys Sant Cedol a'r fynwent.

Bydd angen esgidiau cryfion ac i'r rhai hynny sydd ddim am gerdded yn ôl i Rhiwlas, bydd angen iddynt drefnu car i'w cyrchu'n ôl at Gapel Peniel.



# Cyngor Gwynedd yn annog datblygiad technoleg cyfrwng Cymraeg

Mae staff ac aelodau etholedig Cyngor Gwynedd wedi bod yn cyfrannu at ymgyrch fydd yn helpu pobl ar draws Cymru – a ledled y byd – i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg gyda technoleg newydd.

Mae'r Cyngor yn cefnogi prosiect Common Voice sy'n cael ei redeg ar y cyd rhwng Prifysgol Bangor a chwmni Mozilla, i ceisio datblygu'r gronfa ddata sydd ei angen i'n galluogi i ddefnyddio dyfeisiadau a thechnoleg adnabod llais drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Cyngor wedi bod yn annog swyddogion ac aelodau i roi ychydig funudau o'u hamser i recordio eu hunain yn adrodd brawddegau penodol ac hefyd yn gwrando yn ôl ar recordiadau gwirfoddolwyr eraill.

Dywedodd y Cynghorydd Nia Jeffreys, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd dros yr iaith Gymraeg:

"Annog defnydd o'r iaith Gymraeg gan bawb yn y sir yw un o gonglfeini Cyngor Gwynedd. Rydan ni eisiau cefnogi unrhyw ddatblygiadau newydd ym maes technoleg sydd yn debygol o arwain at mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ym mewn gwaith ac addysg, yn eu amser hamdden ac wrth dderbyn gwasanaethau cyhoeddus.

"Mae technoleg adnabod llais yn datblygu ar ras – mae dyfeisiadau fel Alexa, Siri neu Echo yn dod yn bethau fwyfwy cyffredin yn ein cartrefi ac mae technoleg adnabod llais hefyd yn cael ei ddefnyddio yn gynyddol mewn addysg ac wrth ddatblygu gwasanaethau ar gyfer pobl fregus, er enghraifft i helpu rhai sydd wedi colli'r gallu i siarad neu bobl sy'n byw efo dementia.

"Mae'n faes cyffrous y mae gan Gyngor Gwynedd ddiddordeb mawr ynddo ond yr unig broblem ydi nad hi'n bosib defnyddio'r dechnoleg yma drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd. Felly rydan ni'n awyddus i gynorthwyo i greu'r data fydd yn galluogi'r peiriannau yma i ddeall ein hiaith – nid yn unig er mwyn parchu hawl pawb i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd ond hefyd er mwyn gwneud yn siŵr fod ein iaith parhau i fod yn gyfoes ac i normaleiddio defnyddio Cymraeg efo technoleg, yn enwedig ymysg plant."

Ychwanegodd Gwenllian Williams, Swyddog Iaith Cyngor Gwynedd:

"Lansiwyd yr ymgyrch gennym ar Ddydd Gwyl Dewi ble roeddem yn gofyn i staff roi ychydig funudau o'u hamser cinio i ddod i sesiwn i gyfrannu at Common Voice. Roedd cyfle hefyd i ddangos sut gallai pobl lawr-lwytho ap Common Voice ar eu ffonau symudol personol er mwyn gallu cymryd rhan gartref ac annog eu teuluoedd a'u cyfeillion i gymryd rhan hefyd.

"Ers hynny, mae sesiwn ar gyfer cynghorwyr wedi bod a bydd 'chwaneg o ddigwyddiadau ar gyfer staff yn cael eu cynnal dros yr wythnosau nesaf."

Er mwyn i'r dechnoleg allu adnabod acenion a ffyrdd amrywiol o siarad, mae angen cael gwirfoddolwyr i gyfrannu eu lleisiau a recordio eu hunain yn adrodd brawddegau syml. Mae hefyd angen pobl i wrando 'nol ar recordiadau pobl eraill i wneud yn siŵr eu bod yn gywir.

Mae'r Cyngor yn galw ar unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n awyddus i gyfrannu i fynd i wefan voice.mozilla.org/cy a dewis yr opsiwn 'Cymraeg'.

## Caerhun a Glasinfryn

**Cylch Glasinfryn**

"Garddio Bywyd Gwyllt" oedd teitl sgwrs Anna Williams o'r Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru i'r Cylch ym mis Mai. Ei phrif neges oedd i wneud lleoedd yn well i fywyd gwyllt ac i gysylltu bywyd gwyllt â phobl. Mae Gogledd Cymru yn gyfoethog iawn mewn pob math o fywyd gwyllt ac mae'n bwysig cael digon o wirfoddolwyr i redeg yr Ymddiriedolaeth. Aeth ymlaen i esbonio sut y gallwn ni greu amgylchedd a gerddi i helpu'r amgylchedd a bywyd gwyllt. Mae cloddiau yn bwysig yn enwedig draenen wen, draenen ddu, collen, ysgawen, a blodau fel rhosyn gwyllt, llaeth y gaseg a lafant. Mae boncyff coed yn arbennig o dda i ddennu pryfetach, draenog, llyffantod a broga. Os yn bosibl mae gadael i ran o'r ardd dyfu yn wyllt gyda blodau gwyllt yn arbennig o dda, a'i dorri unwaith y flwyddyn – buasai hyn yn lleihau gwaith o dorri lawntiau ! Mae Anna wedi bob yn gweithio gyda llawer o ysgolion yn lleol i greu gerddi gwyllt yn yr ysgol, a pha well ffordd i ddysgu y genhedlaeth nesaf am gadwraeth a bywyd gwyllt ? Diolchwyd i Anna am ei sgwrs ddiddorol ac amserol gan Ann Illsley. Jocelyn a Carole oedd yn gyfrifol am y lluniaeth a'r raffl.

Bydd yn trip eleni yn ymweld â Disyllty Abergwyngregin a dydd Iau, 11 Gorffennaf am 2yp gyda lluniaeth yng Nghaffi yr Hen Felin, Aber. Croeso cynnes i chwi ymuno â ni.

**Bingo Glasinfryn**

Cafwyd noson hwyliog o Fingo ar 24 Mai. Gwnaed elw o £145 tuag at Tŷ Gobaith. Diolch yn fawr iawn i bawb am eich cefnogaeth a chyfraniadau tuag at y noson. Cynhelir y Bingo nesaf ar 21 Mehefin yn y Ganolfan am 7yh. Croeso cynnes i bawb !


CSL GWASANAETHAU CYNORTHWYO FFERM

Ydych chi angen cymorth gyda'r canlynol?

- Gwasanaethau ar-lein RPW (gan gynnwys SAF, Rheoli Fy Nhir a Rheoli Fy CPH),
- Prosiect Meincnodi Cig Coch,
- Dyddiaduron Stocio a Gweithgaredd,
- Gweinyddiaeth cynlluniau Glastir,
- Gweinyddiaeth Grant Busnes i Ffermydd.

Ffôn: 07523174888,

E-bost: admin@cslfarm.com,

Ein gwefan: www.cslfarm.com



# Garddio

Dyma'r haf wedi cyrraedd ac mi fydd y dydd hiraf a throad y rhod yma'n fuan!

Mae'r holl oleuni ychwanegol a'r gwres yn golygu bod planhigion yn eu tymor tyfu ac mae hynny'n amlwg ym mhob cornel o'r ardd. Ond mae'r goleuni a'r gwres hefyd wrth fodd y chwyn – felly cadwch yr hof yn brysur.

Gyda llaw, ni ddylid defnyddio'r hof ar y gwely nionod gan eu bod yn gwreiddio'n agos i'r wyneb. Chwynnu gyda'r dwylo amdani felly ac os ydych chi am arbed eich cefn, rhowch glustog dan y pengliniau!

**Tasgau**

1. Hofio'n rheolaidd i gadw'r chwyn dan reolaeth.
2. Defnyddiwch ddŵr yn ddarbodus. Mae un drochfa dda yn well na sawl un ysgafn ac mae'n well gwneud hynny pan fo'r haul wedi gwanio.
3. Ewch i chwilio am y 'lladron' ar y tomatos yn gyson. Dydyn nhw'n gwneud dim ond dwyn nerth y planhigyn.
4. Bydd letus, rhuddygl [radish], nionod mân a thatws cynnar yn barod i'w bwyta.
5. Gosodwch y basgedi crog yn eu lle a llenwch eich potiau gyda blodau. Ar ddiwrnod poeth, mae rhai yn eu dyfrio gyda chiwbiau rhew.
6. Torrwch y lawnt bob wythnos.
7. Plannwch weddill y blodau blwyddol.
8. Defnyddiwch gansen os oes gennych blanhigyn gwan a hirgoes.
9. Gallwch docio llwyni sydd wedi blodeuo yn y gwanwyn.
10. Mae rhai garddwyr yn gosod cysgod ar y tŷ gwydr rhag iddo orboethi.

- Cysgodwch eich tŷ gwydr rhag haul crasboeth. Mae awyru yn bwysig - hynny yw, agor neu gau'r ffenestri a'r drws fel bod angen.
- Yn hytrach na gosod darnau o botiau pridd ar waelod eich potiau defnyddiwch bolystyrene er mwyn cael draeniad effeithiol ac, wrth gwrs, mae'r potiau yn ysgafnach i'w trafod.
- Taenwch ddyrnaid o wrtaith dros fylbiau'r gwanwyn a'u cadw yn y pridd nes i'r dail wywo.
- Chwynnwch yn ofalus rhwng ac o amgylch eich pys a ffa a'r ffa dringo a gwnewch hyn yng ngwres yr haul. Gallwch eu dyfrio ar ddiwedd y dydd.
- Erbyn hyn fe all eich planhigion tyner ifainc fynd allan i wres yr haul, ond bydd angen eu gwylio a'u dyfrhau yn gyson nes iddynt sefydlu.
- Mae'n bwysig iawn i binsio blaen dyfiant llwyni fel fuchsia rhag iddynt fynd yn hirgoes; fe fydd mwy o flodau wedyn.

**Viburnum**

Mae cymaint o amrywiaeth o Viburnum fel bod modd i chi gael lliw yn yr ardd o fis Ionawr tan y Nadolig. Dyma ddau sydd ymhlith y mwyaf poblogaidd




**Siân Gwenllian**

Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR

(01248) 372948

**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE

(01286) 672076

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

**Sesiynau Siarad i Ddysgwyr**

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym Marchnad Ogwen

11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi Fitzpatrick's

**Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131**



**Hywel Williams**

Aelod Seneddol

Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

**Swyddfa Etholaeth**, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

**Swyddfa Etholaeth**, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

**williamshy@parliament.uk**

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853



Manylion Cyswllt Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

@CynghorwyrDyffrynOgwen @PlaidCymruOgwen

# Chwaraeon

**CARREG FILLTIR BWYSIG I YNNI OGWEN**
Mae Ynni Ogwen newydd groesi'r trothwy cynhyrchiant 1GWh. Wedi bod yn cynhyrchu ers dwy flynedd bellach, mae cyrraedd y garreg filltir yma o ran cynhyrchiant ynni adnewyddadwy lleol yn destun balchder i'r Bwrdd a holl aelodaeth Ynni Ogwen.

## Pencampwyr Ifanc

Tîm Bethesda Dan 6 efo Meilyr Wyn, eu hyfforddwr, a Paul Wilson, sy'n cynorthwyo. Enillodd y tîm dlws pencampwyr eu hadran yn Nhwrnament Pêl-droed Llanberis ar 25 Mai ar ôl ennill yn erbyn Llanberis, Mountain Rangers (Rhosgadfan) a thimau A a B Ogwen Tigers, a churo Segontiwm (Caernarfon) 1-0 yn y gêm derfynol.



Ogwen
Adferiad Corfforol
Physical Rehabilitation
Proffesiynol, diogel a chyfrinachol
LLEDDFU POEN Cefn, cyhyrau, esgyrn, cymalau, a thensiwn cur pen
Eli Lichtenstein
✆ 07743373895 Ogwen.Physical.Rehab@gmail.com

JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd. JR
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)
CITB

Cynnig Gofal Plant Cymru
Addysg gynnar a gofal
30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant wedi'u hariannu gan y Llywodraeth i rieni cymwys sy'n gweithio ac sydd â phlant tair a phedair oed, a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.
Am fwy o fanylion cysylltwch gyda Uned Gofal Plant Gwynedd a Môn



Ffôn: 01248 352436 E-bost: gofalplant30awr@gwynedd.llyw.cymru